Y DINESYDD

Rhagfyr 2019 / Ionawr 2020

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhif 443 £1

# NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



**Geoff Wright yn dathlu ei ben-blwydd mewn modd arbennig iawn - tud. 2**



**Ronny Oner (Oner Signs) a Huw Stephens tud. 19**

Llun: Gwion Hallam

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Clive Rowlands**

***Golygyddion Chwefror***
***Eirian a Gwilym Dafydd***

Cyfraniadau erbyn 27 Ionawr i:
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 2065 7108

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Gorchest Geoff Wright

Bwriad Geoff, sy'n frodor o Gaerdydd, yw dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed drwy ymdeithio dros 15 niwrnod i Wersyll Man Cychwyn mynydd Everest sy 5,150m o uchder.

Ar ôl cyrraedd y Gwersyll bydd yn gorffen ei antur drwy redeg Marathon Everest yn ôl o'r Gwersyll i'r man lle cychwynnodd y daith, sef 26.2 milltir.

Bydd y daith fydd yn gorffen ar yr ail o Ragfyr yn benllanw breuddwyd oes iddo. Pan oedd yn bum mlwydd oed dangosodd ei dad lun o fynydd Everest iddo. Dyna ddechrau'r freuddwyd.

Dechreuodd Geoff redeg tua deng mlynedd ar hugain yn ôl a dechrau rhedeg llwybrau pan oedd yn 58 oed. Cafodd ei wrthod ar gyfer Marathon Everest, sy'n cael ei chynnal bob dwy flynedd, yn y flwyddyn 2009 gan nad oedd ganddo brofiad rhedeg mewn mynyddoedd bryd hynny.

Mae'r actor a'r tiwtor Cymraeg i oedolion wedi bod yn ymarfer yn galed yn y gampfa gan wisgo mwgwd ocsigen. Rhedodd farathon Pen-y-fan yn gynharach eleni.

Dywed Geoff bod gallu rhedeg y Marathon yn freuddwyd anhygoel iddo.

Mae Geoff yn codi arian ar gyfer elusen Mind sy'n gwneud gwaith arbennig ar gyfer pobl â salwch meddyliol. Hyd yma mae wedi codi £2,700.

Os dymunwch gyfrannu at yr elusen ewch i wefan www.justgiving.com/fundraising/geoff- wright-oem






## Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# Canmlwyddiant Geni Merêd, 'Tad' *Y Dinesydd*

Pe bai Dr Meredydd Evans wedi byw am ryw bum mlynedd arall, fe fyddai wedi dathlu ei ben-blwydd yn gant oed eleni, oherwydd fe'i ganed 9 Rhagfyr 1919. Dros oes hir a ffrwythlon, gwnaeth gyfraniad gwerthfawr – athrylithgar yn wir – i lawer cyfeiriad. Ymhlith yr amlycaf roedd ei ymgyrchu taer, diflino dros y Gymraeg a'i diwylliant, ei gyfraniad nodedig i fyd athroniaeth, ei waith mawr, dylanwadol ym myd canu gwerin ac adloniant ysgafn, a'i allu i swyno cynulleidfaoedd â'i lais tenor hudolus.

Gwir y dywedwyd amdano un tro ei fod yn 'ymddangos yn fwy nag un dyn'; a gallai pawb a gafodd y fraint o'i adnabod dystio i'w argyhoeddiadau cryf, ei gymwynasgarwch chwedlonol a'i frwdfrydedd heintus.

Un o sir Feirionnydd oedd Merêd, ond er iddo ymhyfrydu yn ei fagwraeth yn y sir honno a threulio 30 mlynedd olaf ei fywyd yng Ngheredigion, mae'n bwysig cofio hefyd iddo ef a'i wraig, Phyllis Kinney, y gantores opera ddisglair o Michigan yn wreiddiol, fod ymhlith pileri bywyd Cymraeg y brifddinas am dros ugain mlynedd.

Symudodd y teulu i Gaerdydd yn 1963 pan benodwyd Merêd yn Bennaeth Adloniant Ysgafn gwasanaeth teledu'r BBC yng Nghymru. Dyma gyfnod o lwyddiant eithriadol: cyfnod cyfresi dylanwadol a haeddiannol enwog fel 'Fo a Fe', 'Ryan a Ronnie', 'Hob y Deri Dando' a 'Disg a Dawn'. Cynnyrch y cyfnod hwnnw hefyd oedd y gân eiconig 'Colli Iaith', y geiriau gan Harri Webb a'r alaw gan Merêd, sy'n annatod gysylltiedig, wrth gwrs, â'r gantores o Gaerdydd, Heather Jones.

Yna, yn 1973, penodwyd Merêd yn Diwtor yn Adran Efrydiau Allanol Coleg Prifysgol Caerdydd, swydd y bu ynddi nes iddo ymddeol yn 1985. Rhan o'i gyfraniad yn



*Llun trwy garedigrwydd S4C*

y swydd honno oedd sefydlu rhwydwaith o ddosbarthiadau nos ar gyfer astudio'r Gymraeg a'i llenyddiaeth, ac mae ambell un ohonynt yn parhau hyd heddiw.

A'i weledigaeth fentrus ac arloesol ef a esgorodd ar *Y Dinesydd* yn 1973, blaenffrwyth y papurau bro a gododd fel madarch wedyn ar hyd a lled Cymru – sefydlwyd 50 ohonynt yn y cyfnod rhwng 1973 ac 1983. A rhan allweddol o osod *Y Dinesydd* ar ei draed yn ariannol oedd gwaith Merêd a Phyllis yn paratoi llyfryn o ganeuon poblogaidd a threfnu cyfres o Gymanfaoedd Codi'r To. Cododd y gweithgarwch hwnnw tua £700 – arian mawr yr adeg honno.

*E. Wyn James*

---

# ADDYSG GYMRAEG – RHIFAU MYNEDIAD 2020

Mae rhifau cyntaf ceisiadau am fynediad i'r 3 ysgol uwchradd ar gael yn barod sef,

Bro Edern 156 cais am 180 lle

Glantaf 227 cais am 240 lle

Plasmawr 214 cais am 210 lle, wedi ychwanegiad o 30 lle ers llynedd.

Cyfanswm 597 (6 yn llai na'r 603 eleni)

Roedd 4 o'r ceisiadau ar ran plant wedi cael addysg Saesneg hyd yn hyn sy'n barhad o ddatblygiad ers 2/3 blynedd.

Hefyd mae 18 plentyn nad yw eu rhieni wedi gwneud unrhyw gais ar eu rhan am le uwchradd ac yn bur debyg fe ddaw ceisiadau hwyr i godi'r cyfanswm yn uwch na 597.

Ni fydd pob cais i Blasmawr yn llwyddiannus yn wyneb yr uchafrif o 210 a bydd awgrym iddynt fynd i Lantaf i gymryd 4 o'r 13 lle drosben yno.

Pleser yw nodi bod Glantaf a Phlasmawr ill dwy wedi bod ymysg y 5 ysgol orau yn rhestr holl ysgolion Cymru y *Sunday Times* lle cymerodd 2 ysgol Gymraeg tu faes i Gaerdydd 2 le arall gydag Ysgol y Bontfaen yr unig ysgol gyfrwng Saesneg ym mysg y 5 ar y brig.

Newyddion da hefyd yw bod y sir wedi dechrau'r broses o lunio dalgylch i Ysgol Hamadryad sef wardiau'r Bae a Grangetown. Mae ward y Bae wedi bod yn nalgylch Mynydd Bychan ond nid oes plentyn wedi mynd yno ers 6/7 blynedd ond roedd tua 30 plentyn o Grangetown yn mynd i Bwll Coch. Felly bydd rhaid newid y ffin rhwng Treganna a Phwll Coch i helaethu dalgylch Pwll Coch a lleihau un Treganna i'w alluogi i ddelio â'r plant ychwanegol fydd yn dod o faesdref newydd Melin Elai a fydd yn cael eu codi drws nesaf i'r ysgol.

*Michael Jones*

# Ysgol Plasmawr

**Dathlu'r Gwyddorau – Ysgol Plasmawr**

Ar brynhawn dydd Mercher, Tachwedd 20, cynhaliwyd digwyddiad 'Dathlu'r Gwyddorau' yn Ysgol Plasmawr. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r ysgol drefnu digwyddiad o'r fath a'i fwriad yw ysbrydoli disgyblion i ymddiddori ym maes y gwyddorau a chlywed am lwybrau gyrfa nifer o gyn-ddisgyblion yn y maes.



Trefnwyd cyfres o weithdai diddorol gan ddisgyblion Safon Uwch yr ysgol er mwyn arddangos i ddisgyblion iau y math o brofiadau dysgu a gynigir wrth ddilyn cyrsiau tebyg. Cyflwynwyd gweithdy gan ddisgyblion blwyddyn 9 oedd yn dilyn cymhwyster CREST am eu prosiect ar micro-plastigau mewn ffynonellau dŵr lleol.



Pleser aruthrol oedd croesawu 9 cyn-ddisgybl yn ôl i'r ysgol i gyflwyno gweithdai ar eu llwybrau gyrfa ym maes y gwyddorau. Roedd y gweithdai yn addas ar gyfer disgyblion hŷn sydd yn astudio'r gwyddorau yn CA4 a CA5 a sy'n ystyried astudio'r gwyddorau yn y chweched dosbarth neu Addysg Uwch.

I gloi'r digwyddiad cafwyd sesiwn holi ac ateb, gyda disgyblion yr ysgol yn holi cwestiynau i'r cyn-ddisgyblion am bob math o faterion yn ymwneud â'u gyrfaoedd. Mae'r ysgol yn hynod ddiolchgar i'r cyn-ddisgyblion canlynol am roi eu hamser yn hael er budd y disgyblion presennol: **Catrin Manisty:** Pennaeth Rhaglen Genomeg; **Eleri Middleton:** Embryolegydd Clinigol; **Anthony Boden:** Cwmni Ynni Cynaladwy yn Prague; **Sean Roberts:** Deallusrwydd Artiffisial; **Rhydian King:** Deintydd; **Elin Rowlands:** Meddyg; **Tim Austin:** Para-feddyg; **Lewis Gayle:** Peiriannydd Dylunio Mecanyddol; **Emyr James:** Peiriannydd Sifil.

# Ysgol Pen-Y-Groes

**Diwrnod Hawliau Plant**

Roedd y disgyblion yn gyffrous iawn ac wedi bod yn edrych ymlaen ers amser! Roedd llawer iawn o gyffro a bwrlwm yn Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes, Pentwyn ar yr 20fed o Dachwedd wrth i'r plant ddathlu 'Diwrnod Plant y Byd'. Ar ôl ymateb i drydar ar gyfrif @ypenygroes, ffilmiodd Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru neges i gyfarch y disgyblion ac i'w hysbrydoli ar gyfer gweithgareddau'r diwrnod.

Ymunodd y plant yn frwdfrydig iawn mewn amrywiaeth o weithgareddau creadigol. Y nod oedd creu Arddangosfa Hawliau Plant ar gyfer eu rhieni. Roedd nifer ohonynt yn bresennol. Fel rhan o'r dathlu cyhoeddwyd enw enillydd y gystadleuaeth creu cartŵn ar gyfer yr Hawliau yn yr ysgol. Yr enillydd lwcus a haeddiannol oedd Emily B6 gyda'i chymeriad 'Hali Hawliau'. Diweddglo hyfryd i ddiwrnod llwyddiannus iawn.



**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Cylch Meithrin Dinas Powys

Mae Cylch Meithrin Dinas Powys wedi cael dechrau llwyddiannus i'r flwyddyn academaidd newydd gan weld niferoedd y plant sy'n mynychu yn codi. Mae llefydd yn dal ar gael ar rai dyddiau felly cysylltwch â cylchmeithrindinaspowys@outlook.com am fanylion. Hefyd mae'r Cylch yn ddiolchgar iawn i Gronfa Glyndŵr sydd wedi rhoi grant o £250 er mwyn prynu nwyddau i'r Cylch gan gynnwys cyfrifiadur tabled at ddefnydd y plant.

Elusen yw Cronfa Glyndŵr a sefydlwyd yn 1963 gan Trefor a Gwyneth Morgan i hyrwyddo addysg Gymraeg a chynnig cymorth i rieni sydd eisiau i'w plant fwynhau manteision addysg ddwyieithog. Nod y gronfa yw "gwneud gwahaniaeth". Felly mae'r Gronfa yn cynnig grantiau i gylchoedd Meithrin a Ti a Fi, ysgolion cyfrwng Cymraeg a Mentrau Iaith i'w helpu i farchnata eu darpariaeth ac i wella eu hadnoddau. Mae'r Gronfa yn ddiolchgar iawn i'r noddwyr hael sy'n eu cefnogi yn ariannol, oherwydd hebddynt ni fyddai modd i'r Gronfa ddiwallu'r galw. Byddai'r Gronfa wrth eu bodd yn denu rhagor o noddwyr i'w cefnogi. Ceir mwy o wybodaeth ar eu gwefan www.cronfaglyndwr.cymru



# Merched Plastaf

Daeth llwyddiant i Ferched Plastaf yn yr Ŵyl Cerdd Dant unwaith eto eleni.

Mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn (yn ôl y gwybodusion!), daeth Merched Plastaf yn ail yn y Parti Cerdd Dant Uwchradd ac yn drydydd yn y Parti Alaw Werin Uwchradd.

Da iawn chi, ferched, a Llongyfarchiadau!

Os hoffai darllenwyr y Dinesydd weld a chlywed y merched, daliwch sylw am ambell i ddigwyddiad sydd ar y gweill cyn bo hir.

# Ysgol y Wern

**Plant Mewn Angen 2019**

Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen gyda phlant yn prynu a gwerthu cacennau. Codwyd £1430 yn ystod y diwrnod. Hoffai'r ysgol ddiolch i bawb am eu cyfraniad

Bu 35 o blant y côr yn ffodus iawn i gymryd rhan yng Nghôr Plant Mewn Angen y BBC eleni. Roedd yn brofiad i berfformio gyda thair ysgol arall yn y stiwdio. Darlledwyd rhan o'r perfformiad yn fyw ar y Nos Wener a gwelwyd y perfformiad yn gyfan ar BBC Wales ar y prynhawn Sul canlynol. Llongyfarchiadau i bob aelod o'r côr. Braf oedd cael cefnogi elusen mor arbennig.

**Enillydd Cystadleuaeth Cerdyn Nadolig Julie Morgan AC**

Llongyfarchiadau i Efa Harries (Bl.6) am ennill 'Cystadleuaeth Dylunio Carden Nadolig' Julie Morgan AC Gogledd Caerdydd.

**Gwyddbwyll**

Roedd 3 tîm wedi cystadlu yn y gystadleuaeth gwyddbwyll yn Stadiwm Leckwith. Da iawn i chi gyd! Llongyfarchiadau i un o dimoedd yr ysgol am ddod yn drydydd!

**Gymnasteg**

Roedd Tîm Gymnasteg 'Novice' yr ysgol wedi cystadlu yn ddiweddar yng nghystadleuaeth Sports Cardiff a chafwyd llwyddiant mawr – medal aur i'r bechgyn a medal arian i'r merched. Bydd ein tîm bechgyn a thîm merched yn mynd ymlaen i gynrychioli Caerdydd a'r Fro ym mhencampwriaeth gymnasteg 'Novice' Cymru. Pob lwc iddynt.



***Diwrnod Plant mewn Angen***

# Colofn Hannah

*Croeso i'n colofnydd newydd*

## Hannah Roberts



Helo 'na! Hannah Roberts dw i, a dw i'n mynd i drio'ch difyrru chi â rhyw bytie bach yn ystod y mishodd nesa. Wi'n enedigol o Drebo'th ger Abertawe, ac oni bai am ein pentre bach ni fyddech chi ddim 'di ca'l yr emyn byd enwog Calon Lân achos fan 'ny gas Gwyrosydd, yr awdur, Daniel James, ei eni. O'n i'n un o ddisgyblion cynta Ysgol Gymra'g Lôn Las, wetyn i Ysgol Ramadeg Y Beibl College, ac yna i Goleg Hyfforddi Abrtawe, cyn mynd i ddysgu yn y Barri. Mynd i neud cwrs diploma mewn drama yn 1977, ac yna ymuno gyda Cwmni Theatr Cymru ym Mangor. Dod nôl i Gaerdydd wetyn ac ymuno ag Adran Gyflwyno'r BBC am bum mlynedd, ac yna cyflwyno i S4C am ddwy. Actio wetyn, ac ymysg pethe erill, ryw dair blynedd yn Pobol Y Cwm yn whare mam-yng-nghyfraith Sion, sy ynddo fe o hyd. Tua wyth mlynedd yn ôl, fe geso i ryw 'fetamorffosis'!!! Dihuno lan un bore yn fardd!! Erbyn hyn ma 'da fi 21 o gadeirie eisteddfodol, (rhai bach, chi'n deall) ac un goron o steddfod Pontrhydfendigaid.
Reit, y peth cynta sy 'da fi i chi yw stori fach Nadoligaidd. Gobitho newch chi ei mwynhau. Yna wedi'r Ŵyl, cyfres fach o Feddygyniaethau Mangu.
Hwyl am y tro.

***************

## Asyn y Nadolig

Ma hon yn stori fach wi'n lico'n fowr – David Kossoff yn atrodd ei stori enwog, *A Conversation Between Three Donkeys.* Ma'r tri asyn yn y nefodd ac yn ca'l sgwrs am y rhan o'dd pob un o nhw wedi whare, ar adege gw'anol, ym mywyd yr Iesu. Stori'r asyn cynta yw hon, a wi'n meddwl falle taw rhwpeth fel hyn byse'r stori'n swno yn nhafotieth Cwm Tawe.

Nawr pan wi'n gweud wrth bobol (fel wi'n gweud 'tho chi nawr) am dri asyn yn cwrdd yn y nefodd, mae'n ca'l rhyw effeth od. Yr un mwya od yw fod pobol sy wastod wedi gweud bo nhw ddim yn cretu mewn nefodd, braidd yn *'put out'* bod asynnod yn ca'l mynd 'no. Rhyfedd on'd ife? Achos o'n nhw i gyd wedi bod 'no am ganrifodd, … dros ddwy fil o flynyddodd i weud y gwir … a o'n nhw i gyd yn depyg iddi giddyl 'ed … wel, ma asynnod on'd y'n nhw? A dyma'r cynta – (Asyn y Nadolig) yn atrodd ei stori – a o'dd hwnnw wedi dysgu tafotieth CwmTawe 'ed!!!

Medde fe, "Geso i sawl mishtir, ond wi'n cofio un yn neilltuol, nace o'i achos E, chi'n deall, er o'dd e ddicon caretig, ond o achos rhyw bethe rhyfedd ddigwyddws tra o'n i'n gweitho iddo fe. Sa'r o'dd e, yn byw yn Nasareth, a dw i ddim yn cretu fydde fe wedi pyrnu fi oni bai am ryw orchymun Rhufeinig. Wetyn o'dd gofyn iddo fe fynd i Fethlehem, achos bod e, Awgwstws Cesar, y gaffer ar y pryd, ishe cownto pob copa walltog i neud yn siwr bo neb yn jibo talu arian iddo fe.

Ta p'un, byrnws e fi er mwyn i'r fistres ga'l reido 'na, o'dd hi'n erfyn babi chwel, a cyn bo hir 'ed. O'n i'n flin amdani, ond siwrne fydden nhw'r Rhufeiniaid yn gweud rhwpeth, o'dd pawb yn shiffto! ( O! Anghofies i weud 'tho chi - Mair a Joseph o'dd'u henwe nhw.)

Pan gyrhaeddon ni, o'dd hi wedi tywyllu, y dre yn orlawn, a dim lle mewn un gwesty, ond fe driws y lletywr ola i helpu, a chynnig stapal i ni o'dd yn glyd ac yn sych, a gallen ni hala'r nos fan ny. Wel o'n i'n becso am y fistres, wi wedi cysgu mewn stapal ar hyd 'y mywyd, ond o'dd hi 'di ca'l ei chwnnu'n 'refeind'. Gysgws hi yn y *manger …* dotws Joseph wair a gwellt i gatw hi'n gynnes. Wel, o'n i siwr o fod wedi dechre slwmbro, achos y peth nesa glywes i o'dd lleisie dynon … cricyn o fugeilied yn *excited* bost … a fan'na yn y gwellt, o'dd y fistres … a babi yn 'i breichie … 'na drueni i fi gwmpo i gysgu… golles i'r cwbwl. Mor bell â allen i weitho mas, o'dd angel wedi gweud wrth y bugeilied bod y babi speshal 'ma, o'dd yn siaro stapal 'da fi a'r fuwch, yn mynd i newid y byd.

Chytyg wedi hyn, 'odd hi off 'na 'to … tri arall yn cyrradd, oo'dd rhain mewn ca' arall!! Brenhinodd o bant, wedi dilyn seren, i weld 'Gwaredwr', medden nhw, 'Brenin', medden nhw, lot yn fwy pwysig na Herod!! Wel, pan glywes i 'na, o'n i'n gwpod fydde trwpwl, ac o'n i'n reit!

Erbyn y bore, o'dd y tri brenin wedi mynd. A gas Joseph wetyn freuddwyd, angel arall 'to!!! O'dd rheiny'n popo lan ymhobman!

Yn gweud 'tho fe'r tro 'ma i fynd â'r babi speshal, a mam y babi speshal, a fi, asyn y babi speshal, lawr i'r Aifft, achos bod Herod, brenin Judea, yn ynfyd. Babi wedi'i eni, ar ei batch E!! a'i alw e'n FRENIN!! O'dd rhaid rhoi stop ar y nonsens 'ma NAWR!!

Hen un od o'dd Herod ar y gore, o'dd cnoc arno fe medde rhai, a o'dd e ddim hanner iach, ond nawr ac yn y man, o'dd e'n ca'l pwl o golled, a phan glyw-ws e am y babi 'ma, gas e bwl o golled BIG TIME!!! Penderfynu lladd pob plentyn dan ddyflwydd o'd! Dyna pam baglon ni ddi … gatel y stapal, a cilo i'r Aifft.

O'n i mor falch bo fi wedi aros 'da nhw, i gatw'r babi sbeshal yn saff.

***************

A grindwch, wi 'di clywed bod 'na wlad a'i henw yw Cymru, a ma nhw'n siarad yr un iaith â'r lle 'ma, yn ôl y sôn, ond mor bell â alla i weld, ma nhw bach yn od 'na fyd, gwishgo cynfase gwyn a galw'u hunen yn FEIRDD. Wel sdim ots, achos sgrifennws un o nhw gerdd yn 'y nghanmol i am aros da'r teulu bach pan o'dd pawb arall wedi gweud "Gwbei". Wi'n deall taw Prifardd o'dd hwnnw, wedi'i gwnnu ar ffarm, mae'n depyg. (Falle o'n nhw'n catw asynnod 'fyd!) *(parhad tud.7)*

# Pobol y Rhigwm

Tasg 27 oedd llunio limrig yn cynnwys y llinell: Mae pethau'n gwaethygu yn raddol', ac yn wir, roedd nifer ohonyn nhw'n limrigau. Daeth cannoedd o gynigion i law, ond dyma'r 10 gorau o'u plith.

Un o hanfodion limrig yw bod ynddo 5 o linellau; hanfod arall yw ei fod yn ddoniol. Diolch i'r sawl a gyrhaeddodd y ddau nod. Mae cadw at fydr arferol limrig, a llinell glo dda hefyd yn ddymunol.

Dyma nhw, heb fod mewn trefn arbennig.

Torrodd Ffred goes wrth gwympo o'i ysgol,
Stopiodd gwleidydd mewn Jag yn gonsyrnol.
O weld ei wallt golau
D'wedodd Ffred yn ei boenau:
'Mae pethau'n gwaethygu yn raddol.'
**Y dyn ambiwlans**

Mae pethau'n gwaethygu yn raddol;
Y wlad sy mewn cyflwr uffernol.
Bydd pobol yn syn
Os dewn ni drwy hyn –
Fyddai hynny yn ddim byd ond gwyrthiol!
**O am aros**

Mae pethau'n gwaethygu yn raddol,
A Brexit yn drafferth anhraethol;
Cyn rhoi yn Rhif Deg
Y Boris a'i geg,
Rhaid mynnu cael Pleidlais y Bobol.
**Cofiwch y Blwch**

Mae pethau'n gwaethygu yn raddol,
A chodiad sy'n brofiad eithriadol.
Ond, fel ag erio'd,
"I fyny bo'r nod!"
Mae gobaith yn rhywbeth parhaol.
**Rhwystredig was**

Gwae ni ein gwleidyddiaeth eithafol!
Cwymp sydyn ryw dro fydd ei gwaddol.
O! 'r hiraeth am ddyddiau
Pan ddwedem: ''N ddiamau
Mae pethau'n gwaethygu yn raddol.'
**Laura Dŵmsberg**

'Nôl y sôn mae pob peth yn gymharol -
Hyd yn oed mewn materion addysgol.
Rhyfedd falm oedd yng ngeiriau
Fy athro pan dd'wedai:
'Mae pethau'n gwaethygu yn raddol.'
**Y cyn-ddisgybl**

'Sweet chariot' ys tawel ryfeddol;
Mae gwasgedd y Boks yn ysgytwol.
'N sgil corwynt o bwyntiau
Neb ond Ed a ddywedai:
'Mae pethau'n gwaethygu yn raddol.'
**Y gorfoleddwr**

Mae pethau'n gwaethygu yn raddol,
"Wel dyna ddatganiad negyddol,
Caf godi i goffi
A sain Radio Cymru,"
Medd Dyddgu sydd wedi ymddeol.
**Gŵr Dyddgu**

Mae pethau'n gwaethygu yn raddol,
A'r crinddail ar lawr lawnt y faenol.
Ond heulwen a daflai,
Drwy noethni'r canghennau,
Belydrau cysurlon cynhesol.
**Cysur Henwr**

Mae pethau'n gwaethygu yn raddol,
Ffarweliwyd â'r Gwcw a'r Wennol.
Ond Coch-dan-yr-aden,
Y Socan a'r Ddrudwen
Rydd gysur ar gefnen aeafol.
**Mab y Mynydd**

Mae rhai ffugenwau'n wreiddiol iawn – marc bonws i Laura Dŵmsberg! Eithaf gwastad fu'r safon, heb yr un yn sefyll yn amlwg ar y blaen. Yr opsiwn hawdd oedd rhoi'r llinell osodedig ar y diwedd, ond mae'r goreuon wedi gwneud mwy o ymdrech i feddwl am rywbeth gwreiddiol. Beiddgar, os nad gwreiddiol, oedd cynnig 'Rhwystredig Was' ond mae nodyn gobeithiol digon diniwed yn y llinell glo. Mae eiddo Cysur Henwr a Mab y Mynydd yn delynegion eithaf barddonol, ond braidd yn rhyfedd ar fesur fel limrig. Yr ymdrech fwyaf amserol yw limrig Cofiwch y Blwch efallai, a hoffais yn arbennig y disgrifiad o'n parchus Brif Weinidog (gwybodaeth yn gywir wrth i'r golofn fynd i'r wasg...) fel 'Y Boris a'i Geg.' Rhaid oedd dewis un, felly limrig Cofiwch y Blwch sy'n mynd â hi.

**Enillydd tasg rhif 27 yw**
**Gwen Emyr**

Y dasg ar gyfer y tro nesaf (tasg 28) yw pennill neu driban sy'n cynnwys y llinell:

**Tri pheth sy'n peri poendod**.

Anfonwch eich cynigion yn ôl yr arfer at db.james@ntlworld.com erbyn 18 Ionawr 2020. [Sylwer ar y dyddiad cau estynedig gan fod hwn yn rhifyn dwbwl.]

Pob hwyl ar y rhigymu.

**Emyr Davies**

*(parhad Colofn Hannah)*

Wel, licech chi glywed 'i gerdd e? Reit te, bant â'r cart,

## Drannoeth yr Ŵyl

John Gwilym Jones

O gilio'r hen fugeiliaid
At yr ŵyn eto o raid,
A chamre'r nifer nefol
Tua'r nef wedi troi'n ôl,
A'r Doeth ddaeth ar gyngor da
Yn dianc o Jiwdea,
Yn y gwellt yr unig un
Arhosodd oedd yr asyn.
Ond â herwyr du Herod
Yn eu dur at Iesu'n dod,
Hwn o'i stâl ar droed ddi-stŵr
Waredodd y Gwaredwr.

Nadolig Llawen.

# CERDYN POST O GALIFFORNIA

## Lowri Haf Cooke yn holi Nia Wyn Jones

***Mae Nia Wyn Jones, sy'n wreiddiol o Landaf ac yn adnabyddus am ei gwaith fel gof, wedi symud yn ddiweddar i Ogledd Califfornia. Mae hi'n byw yno gyda Matthew ei gŵr a'u merched Eiry (sy'n 8) a Gwen (5 oed).***







**Helo Nia! Y tro diwethaf i ni dderbyn Cerdyn Post gennych chi, roeddech chi a'ch teulu yn byw yng Ngwlad Pwyl. Ble ydych chi erbyn hyn?**

Cyfarchion cynnes o Fae San Francisco! Wedi tair blynedd o fyw yng Ngwlad Pwyl penderfynon ni fel teulu ar un antur fach arall. A waw, dyma yw newid byd! Lle buom ni yng nganol bwrlwm dinas Warsaw ryn ni bellach yn nhref fach wledig Moraga, i'r dwyrain o ddinas San Francisco. Yn hytrach na blocie concrit Sofietaidd yn ein hamgylchynu ni, nawr mae byngalows pren a choedwigoedd pîn. Wedi ffarwelio â'n ffrindie Pwylaidd ryn ni nawr yng nghanol y frigâd lycra gyda'u avocado twists, eu ceir Tesla a'u 'have a nice day!'

**Beth wnaeth eich denu chi yno?**

Mae fy ngŵr Matthew yn beiriannydd sifil a'i swydd e ddaeth â ni yma. Serch hynny bu cryn oedi wrth ddod o hyd i olynydd iddo yn Warsaw, a bu'n rhaid i mi a'r merched symud yma hebddo! Mae'n ddyddie cynnar ond dwi wedi gwirioni â'r ardal. Mae'r bryniau yn frith o lwybrau cerdded sy'n cynnig golygfeydd o'r bae a'r ynysoedd, yn ogystal â chysgod y coed Redwood adnabyddus.

**Beth yw eich barn am eich cartref newydd?**
Bu'r wythnosau cyntaf yn dipyn o her. Dod o hyd i ysgol ar gyfer y merched, ymgyfarwyddo â gyrru ar y freeways ANFERTHOL 'ma, llogi celfi dros dro (mae'n eiddo ni gyd rhywle rhwng Gdansk a phorthladd San Francisco ar hyn o bryd) ac arfer gyda'r gwres wrth gwrs. Wedi hynny bu gorfod ymdopi gyda bywyd heb bŵer a'r peryg o danau gwyllt. Bu un tân ar gyrion y dref a bu rhaid i 150 o deuluoedd adael eu cartrefi ganol nos - diolch byth na fu iddo ledu. Ar ben hynny fe brofais fy naeargryn cyntaf. Un bach oedd hi, ganol nos. Er, deffrois yn sydyn i glywed y tŷ cyfan mewn dawns fach am hanner munud.

**Am gyflwyniad dychrynllyd i'r ardal - falch i glywed eich bod chi'n iawn. Ydych chi wedi cael cyfle o gwbl i fwynhau rhai o atyniadau'r fro?**

Er yr holl ddrama rydym wedi cael cyfle i archwilio'r ardal gryn dipyn. Mae llyn hyfryd Lafayette yn lleol i ni ac mae'r merched wrth eu bodd yn llogi cwch rhwyfo a mynd i bysgota. Ychydig yn bellach buom i draeth dinesig Baker a chael golygfa wych o'r Golden Gate Bridge. Fy hoff antur hyd hyn oedd trip drwy goedwig Redwood Creek tuag at draeth Muir. Dyna lle cawsom ein cyfle cyntaf i drochi ein traed yn nhonnau'r Cefnfor Tawel. Moment fythgofiadwy yn sicr.

**Swnio'n hyfryd. Beth yw'ch hoff brofiad yno fel teulu hyd yma?**

O'r diwedd, mae Matthew wedi cyrraedd, ac i ddathu mi es i â'r teulu i weld Cirque du Soleil yn perfformio yn San Francisco ei hun. Mi oedd gyrru fin nos dros y Bay Bridge a gweld goleuadau'r ddinas o'n blaenau yn hynod o wefr.

**Oes gennych chi gynlluniau ar gyfer Nadolig?**

Gan mai newydd gyrraedd mae Matthew rydym wedi penderfynu aros yma dros y Nadolig. Falle ewn ni at y llethrau eira ger Llyn Tahoe neu falle taith wîb i Hawaii. Mwy na thebyg gewn ni wythnos dawel adre yn y byngalo, mae symud byd gyda theulu ifanc wedi bod yn flinedig iawn!

**Diolch i chi Nia, a dymuniadau gorau i chi a'r teulu. Nadolig Llawen iawn o Gaerdydd!**

# Merched y Wawr Caerdydd

## Merched y Mabinogi

Go brin fod neb yn gwybod mwy, na chwaith yn gallu traethu'n fwy difyr, am y Mabinogi na'r Athro Sioned Davies. Gwyddem felly y caem noson ddifyr yn ei chwmni yn edrych yn benodol ar y merched. Roeddem ar flaenau'n cadeiriau pan gychwynnodd drwy'n hatgoffa bod llyfrau hanes, tan ryw hanner can mlynedd yn ôl, wedi eu sgwennu gan ddynion am ddynion!

Aeth â ni wedyn at y merched ym Mhedair Cainc y Mabinogi gan sôn fel y disgrifiwyd statws, nodweddion a phatrymau bywyd merched. Roedd statws y ferch yn ddibynnol ar ei pherthynas efo'r dynion yn ei bywyd - yn ferch neu yn wraig i rywun tra disgrifiwyd y dynion yn ôl eu cyfoeth. Tynnwyd ein sylw at y pwyslais ar nodweddion y ferch – prydferth, hael, gallu ymddiddan yn dda, a rhoi cyngor doeth a chroesawgar. Ac yn wir mae'n debyg bod llyfrau yn rhoi cyfarwyddyd i feirdd y canol oesoedd ar sut y dylid disgrifio merched!


*Sioned Davies*

Soniodd yn ddifyr hefyd drwy sawl stori ddoniol am y pwyslais ar wyryfdod a ffrwythlondeb gan ein hatgoffa mai cytundeb oedd priodas yn y cyfnod yn hytrach na sacrament. Awgrymodd fod Arianhrod yn eithriad ac yn cael ei disgrifio fel merch annibynnol. Ychwanegodd fod pob un o'r dynion mewn gwirionedd hefyd yn ddibynnol ar y ferch ac felly fod y naill yn dibynnu ar y llall yn y pendraw!

Tyngodd pawb y byddem yn ail ddarllen y ceinciau efo sbectol reit wahanol ar ôl y sgwrs hon!

# Merched y Wawr Bro Radur

Ein siaradwr gwadd fis Tachwedd oedd Pedr Jones, sef gŵr Maggie Smales, un o'n haelodau. Cyflwyniad am fywyd a gwaith ei dad, y cerflunydd enwog Jonah Jones a gawsom. Bu arddangosfa ym Mhlas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog eleni i ddathlu canmlynedd geni Jonah. Nid cerflunydd yn unig ydoedd, roedd yn hynod amryddawn – yn dorrwr llythrennau, yn beintiwr dyfrlliw ac yn ddylunydd a gwneuthurwr ffenestri gwydr lliw trawiadol dros ben. Fe gyhoeddodd bum llyfr, casgliad o draethodau, nifer o erthyglau a bu'n addysgwr uchel iawn ei barch ym maes y celfyddydau.


*Maggie a Peter*

Ganed Jonah yn Chwefror 1919 ger Wardley, Swydd Durham. Gweithio yn y pwll glo oedd ei dad ond roedd y teulu, fel llawer yn yr ardal, yn dioddef tlodi oherwydd y dirwasgiad rhwng y ddau Ryfel Byd. Enillodd Jonah ysgoloriaeth i astudio Celf yn Ysgol Gelf Newcastle, ond ni allai'r teulu fforddio ei anfon yno a bu'n rhaid iddo fynd i weithio. Mae Pedr wedi sgwennu hanes bywyd anhygoel ei dad yn ei lyfr, 'Jonah Jones An Artist's Life'.

Canolbwyntiodd Pedr ar ddangos lluniau o waith ei dad sydd i'w gweld yng Nghymru. Uchelgais Jonah oedd bod yn grefftwr yng nghanol ei gymuned. Symudodd y teulu i Eifionydd a bu Jonah yn gweithio yng Ngwasg Caseg, Llanystumdwy gyda John Petts. Cafodd lawer o waith comisiwn gan Syr Clough Williams-Ellis ar gyfer Portmeirion. Yn ystod 1950 au bu'n cynhyrchu nifer o gerfluniau bychain, gwelir un yn Oriel Môn, un arall yn Oriel Glynn Vivian, Abertawe a hefyd mae enghraifft o'i waith yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Mae'r ffenestri yn Eglwys Gatholig Sant Padrig yng Nghasnewydd yn nodedig iawn a gwaith arall trawiadol yw'r ddau ffigur sy'n sefyll ar gornel gogledd-orllewinol yr Amgueddfa yma yng Nghaerdydd. Santes Melangell yw un sy'n cynrychioli natur ac amaeth a gweithiwr llechi yw'r llall i gynrychioli diwydiant.

Cawsom noson ddifyr a phawb ohonom wedi rhyfeddu at yr enghreifftiau hynod ac amrywiol o waith Jonah Jones.




Bu tri thîm o'r gangen yn cystadlu yn y Cwis Hwyl Hwyr Cenedlaethol ddechrau Tachwedd. Daeth un o'r timau'n fuddugol yn Rhanbarth y De-Ddwyrain a Phowys. Llongyfarchiadau mawr i'r tair a welir yn y llun: (o'r chwith i'r dde) Elsbeth Edwards, Sharon Voyle a Mair Morgan.

# Cymdeithas Edward Llwyd

Mae mynd am dro yn ffordd dda o leddfu'r straen rydyn ni i gyd yn dioddef o bryd i'w gilydd. Cyfle i ni roi'r byd a'i bethau yn ôl yn ei le. Mae pawb yn dioddef bob hyn a hyn.

Mae natur wedi gorfod dioddef pethau ofnadwy am gyfnodau hir iawn, dynolryw yn cymryd mantais o'i chyfoeth a chreu llanast mawr er mwyn cael y cyfoeth iddyn nhw eu hunain. I lawr fan hyn yn y de mae aelodau'r Gymdeithas yn cerdded yn ardaloedd yr hen feysydd glo ac erbyn hyn ychydig iawn o olion y diwydiant sydd ar ôl. Mae gwyrddni ym mhob man a physgod yn ôl yn yr afonydd, llefydd i chwarae a llefydd i fwynhau'r awyr iach. Yn ddiweddar roedd ein taith yn mynd â ni o'r Rhondda Fawr dros y mynydd i'r Rhondda Fach. Wrth gael golwg oddi uchod roedd y cymoedd yn edrych fel lle braf iawn i fyw, yn lân ac yn lliwgar. Mae heriau newydd gan fyd natur y dyddiau yma ond o leiaf erbyn hyn mae gynnon ni gydwybod - croeswch eich bysedd!

Wrth gerdded ar ochr yr afon Menai yn ddiweddar (mae'n braf mynd o un pegwn i'r llall) gwelais i Gwtiaid y Traeth yn aros yn amyneddgar ar y cerrig yn cael sgwrs ac ambell i jôc, siŵr o fod. Maen nhw'n hoffi



*Cwtiad y traeth*

treulio eu hamser yn chwilio am fwyd ymysg y cerrig - *Turnstone* yw'r enw yn Saesneg. Dyna beth maen nhw'n wneud. Maen nhw'n gwybod bydd y llanw yn mynd allan unwaith eto iddyn nhw gael cyfle i chwilio am rywbeth blasus. Mi nes i aros am sbel yn eu gwylio nhw, yr haul yn gynnes ar fy nghefn. Braf iawn yw crwydro.

Dewch efo ni i fwynhau ein cefn gwlad, edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal. Bydd croeso mawr i chi!

*Rob Evans*

# Merched y Wawr Cangen y Felin

Faint ohonoch sy' wedi bod yn CANNA DELI ym Mhontcanna?

Efallai yr hoffech alw draw yno yn fuan i brynu bwydydd Cymreig ar gyfer y Nadolig?

Nos Iau 21 Tachwedd, cawsom gyfarfod diddorol dros ben gyda'r perchennog ifanc egnïol, sef Elin. Siaradodd yn frwdfrydig am sut yr aeth ati i gychwyn prosiect cyffrous i wneud caws ar fferm ei rhieni yn Sir Fôn ac yna ei werthu yng Nghaerdydd.

Rhyd y Felin yw enw'r fferm a dyna'r enw sydd ar ei chynnyrch.

Penderfynon nhw fel teulu arallgyfeirio ryw bedair blynedd yn ôl ac erbyn hyn mae nifer o fusnesau bach wedi blodeuo yn y Gogledd, a Canna Deli yng Nghaerdydd.

Athrawes Bioleg oedd hi ond gwelodd fwlch yn y farchnad. Ond nid ar chwarae bach mae agor deli. Cymerodd hi'r sialens o ddifri. Bu'n teithio'r byd am gyfnod er mwyn gweld sut mae caws da yn cael ei wneud. Aeth ati wedyn i hyfforddi fel ymgynghorydd ariannol. Erbyn hyn, yn ogystal â rhedeg y Deli yn llwyddiannus iawn... (gwelwn yr enw yn Good Food Guide 2019), mae hi hefyd mewn sefyllfa i allu helpu eraill sydd am fentro i fyd gwerthu cynnyrch Cymru.

Cawsom flasu'r caws...Môn Las, Brie Môn, Gouda Môn a Cheddar Môn .

Mae mwy yn y Deli na chaws. Siytni, Jam a Marmalêd Rhyd y Felin, Hampyrs mawr a bach ar gyfer y Nadolig ac un peth arbennig iawn sef diod TEIONI..(te + daioni ) Rhywbeth tebyg i donic yw hwn, sy'n iachus iawn ar ben ei hun neu ar gyfer ei arllwys ar y Gin !!! Felly pam prynu Schweppes???? Ewch draw i'r Deli !



***Elin***

# Gwylio'r Geiniog

*"Datgelodd Banc Lloyds ei bod wedi ffeindio 9,000 o hen ewyllysiau roeddent wedi eu cadw 'mewn lle diogel'".*

## Huw Roberts



**Gofynnwch i Huw** :

Yr wyf yn byw mewn cartref mawr ac yn ystyried symud i fyw mewn fflat mewn datblygiad i bobol dros 60. Sylwadau?

: Mae llawer mwy o ddatblygiadau newydd gyda lolfa gymunedol / café / gym. Mae mwy o gyfleusterau na fflat arferol ond mae'r rhain yn llawer mwy costus i'w prynu.

: Bydd eich taliad misol am y cyfleusterau yn llawer uwch.

: Mwy o gostau / rheolau pan fydd yr amser yn dod i werthu'r fflat ac mae rhai fflatiau ar hen ddatblygiadau wedi dioddef colledion sylweddol.

: Darllenwch yr amodau yn ofalus iawn. Os yw'r fflat newydd yn addas i chi, popeth yn iawn, ond byddwch yn wyliadwrus o'r costau sydd i ddod.

Datgelodd Banc Lloyds ei bod wedi ffeindio 9,000 o hen ewyllysiau roeddent wedi eu cadw "mewn lle diogel". Cafodd sawl ystâd ei weithredu yn anghywir. Os yw'ch ewyllys gyda banc, sicrhewch ei bod yn dal yno ac os yn hen ewyllys bydd angen ei hadolygu. Yn gyffredinol gwnewch yn sicr bod eich ysgutorion yn gwybod lleoliad eich ewyllys.

Mae scamiau diweddaraf yn cynnwys rhai Royal Mail / Amazon Prime / Visa / y Swyddfa Dreth. Peidiwch â rhoi gwybodaeth banc a pheidiwch â gadael i neb gael defnyddio eich cyfrifiadur.

Os oes gennych gwestiwn cyffredinol am y golofn anfonwch e-bost at huwrobertsaccountant@gmail.com neu trwy www.huwrobertsaccountant.cymru neu ffoniwch 029 2069 4524.

*Mae Huw yn gyfrifydd sy'n arbenigo mewn treth incwm, ewyllysiau a gwaith profiant.*

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ar ddiwedd mis Hydref, Tweli Griffiths, awdur, newyddiadurwr ac un o ddarlledwyr enwocaf Cymru oedd y gwestai. Amlygodd ei hoffter cynnar o gonsurio, wedi cael blociau triciau gan ei dad. Wrth gyflwyno cyfres o driciau soniodd am amryw o gonsurwyr enwog fel Houdini, Arthur Doyle, Tommy Cooper a Paul Daniels, gan blethu'r cyfan i sylw'r gwylwyr mewn ffordd apelgar a chywrain iawn – prynhawn difyr dros ben!

Ar ddechrau mis Tachwedd croesawyd Aled Roberts, Comisiynydd newydd yr Iaith Gymraeg i'r Aelwyd. Soniodd am ei fagwraeth yn ardal Rhosllanerchrugog, ysgolion Ponciau a Rhiwabon, cyn astudio'r gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bu'n gyfreithiwr yn Wrecsam, a dod yn Brifweithredwr y Cyngor cyn mynd i'r byd gwleidyddol gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol. Gan iddo ei benodi'n Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg eleni, rhannodd ei brofiadau cynnar a'i ddyheuadau, i fynnu ymateb ffafriol ac adeiladol i'r iaith mewn ysgolion ac yn y gymuned ar draws Cymru. Dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol gan Gwenda Morgan, y Cadeirydd.

Ar 27 Tachwedd bu'r aelodau wrth eu bodd yn darganfod dawn arbennig y gogyddes Beca Lyne-Perkis, un o sêr llwyddiannus y teledu ym myd coginio ac arlwyo. Cafodd pawb gyfle i flasu ei chynnyrch a rhyfeddu at ei gallu i greu campweithiau sawrus a melys, yn benodol ar gyfer y Nadolig.



Beca

Ar 11 Rhagfyr am 1.00 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth Dathlu'r Geni a pharti Nadolig i ddilyn. Eleni, cesglir at achos MIND! Croeso cynnes i bawb!

*Menna Brown*




# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## SALEM, TREGANNA

**Gwasanaethau'r Nadolig**

Croeso mawr i chi ymuno â ni dros y Nadolig:

15 Rhagfyr, 10.30am - Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul; 15 Rhagfyr, 9pm - Gwasanaeth y Goleuni; 22 Rhagfyr, 10.30am - Gwasanaeth Llith a Charol; 24 Rhagfyr, 11pm - Gwasanaeth Cymun Bore Nadolig, 9.30am - Gwasanaeth anffurfiol. Dewch i ddangos eich teganau i Evan!

**Taith y Bobl Ifanc**

Aeth Taith y Bobl Ifanc dros y ffin i Gastell St Briavels yn ystod mis Tachwedd. Roedd pawb wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau heriol a chymdeithasu mewn lle unigryw iawn! Diolch i bawb wnaeth drefnu a rhoi profiad gwych iddynt.

**Derbyn Pobl Ifanc**

Ddechrau Rhagfyr cafodd criw o bobl ifanc Salem eu derbyn yn gyflawn aelodau. Llongyfarchiadau mawr i chi! Yn dilyn cyfnod yn mynychu cylch trafod gydag Evan a chwrdd am bryd o fwyd cymdeithasol yn Zio Piero braf oedd eu gweld yn dod yn gyflawn aelodau nos Sul, Rhagfyr 1. Cawsom wasanaeth hyfryd o dan ofal ein gweinidog.

**Adran yr Urdd**

Bu'r adran yn brysur ym mis Tachwedd yn mwynhau gêmau a chwaraeon yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd, ac yn mwynhau noson o ffilm a phopcorn.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Geraint Cynan, Nest Gwilym a Carys Pithouse wedi iddynt golli anwyliaid. Rydym yn meddwl amdanoch.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Trefn yr Oedfaon** (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol)**:**

**Mis Rhagfyr 2019:** 1–Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn (am 5:00 p.m.) 8 – Oedfa i'w threfnu (am 5:00 p.m.) 15–Oedfa Nadolig yng Nghartref yr Henoed (11:00 a.m.) ac oedfa 9 Llith a Charol yng nghwmni Côr CF1 (am 5:00 p.m.). 22–Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul. 25–Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00 a.m.). 29 – Oedfa dan ofal Wynford Ellis Owen.

**Mis Ionawr 2020:** 5–Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn. 12 – Oedfa dan ofal Dr Neville Evans a Plygain (am 4:30 p.m.). 19 – Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys. 26–Oedfa gyda'r Parchedig Owain Llyr Evans.

Un o'r pleserau mawr ym Methlehem, Gwaelod-y-garth yw paratoi at y Nadolig. Fe welwch o'r calendar uchod yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ynghlwm wrth ymlwybro tuag at y preseb ar fore'r Nadolig, ac o hynny 'mlaen hyd at ddiwedd cyfnod yr Ystwyll a'r Plygain.

Cyfnod lle mae pob oedran yn ymroi i ddathlu, ond yn arbennig felly y plant a'r ieuenctid.

Fedra i ddim meddwl am unrhyw fan sydd wedi ceisio rhoi gwedd mor amrywiol i'r Ddrama Nadolig ei hun, ac mae'r Baban Iesu wedi ei eni o fewn sefyllfaoedd traddodiadol ac anghonfensiynol iawn dros y blynyddoedd.

'Roedd ymweliad diweddar yr Eisteddfod Genedlaethol â'r brifddinas yn ysgogiad; bu Dr Who yn ein plith; bu gyrru mewn "*caravanette*" yn brofiad bythgofiadwy i'r teithwyr lwcus!



***Pobl ifanc Salem yn St Briavels***

Pwy ŵyr i ba gyfeiriad y bydd y bugeiliaid a'r camelod yn troedio eleni - rhaid disgwyl tan fore Sul yr 22ain o Ragfyr i ddarganfod hynny.

Ond os oes chwant arnoch ddilyn y seren tuag at *CF15 9HJ* unrhyw bryd byddwch yn sicr y bydd croeso yn eich disgwyl a bendith yn goflaid o'ch cwmpas o ddod i'n cwmni.

Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr y Dinesydd.

Cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Gwefan Bethlehem:
www.bethlehem.cymru
Yn Trydar (Twitter) ar
@gwebethlehem.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT, YR EGLWYS NEWYDD

Wrth i mi ysgrifennu hwn, mae'r dewraf a'r mwyaf heini yn ein cynulleidfa ar ei ffordd i *base camp* mynydd Eferest. Ar gyrraedd pen-blwydd pwysig eleni, penderfynodd Geoff Wright wireddu breuddwyd ac ymuno â thîm Marathon Mynydd Eferest. Dymunwn bob hwyl a bendith iddo wrth iddo ddringo i'r gwersyll gyda'r grŵp – ac yna rhedeg i lawr! Ei obaith yw casglu arian nawdd tuag at elusen Mind – da iawn Geoff!

**Ffarwel**

Bu nifer ohonom yn Requiem yr Esgob Daniel Mullins yn Abertawe ganol y mis. Roedd y Gadeirlan yno yn llawn ac roedd yn braf gweld nifer fawr o deulu'r Esgob oedd wedi teithio o Iwerddon i fod yn bresennol. Clywsom yr Wyddeleg a'r Gymraeg yn ystod y gwasanaeth. Roedd yr Esgob Mullins yn adnabyddus i ni yn ardal Caerdydd gan iddo dreulio nifer o flynyddoedd yn offeiriad plwyf ym Mhenarth cyn cael ei symud i fod yn Esgob cyntaf Esgobaeth Mynyw. Enillodd barch ymhlith Cymry Cymraeg drwy Gymru gyfan oherwydd ei hynawsedd a'i feistrolaeth ar yr iaith a'n hanes. Gorffwysed mewn hedd.

Cynhelir yr **Offeren yn Gymraeg** yn Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd ar Sul olaf pob mis am 4 30 y prynhawn. Mae llyfrynnau dwyieithog ar gael ac mae croeso cynnes i bawb.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## EBENESER

**Parti Golau**

Cynhaliwyd noson i ddathlu'r golau ar nos Galan Gaeaf i blant 5-11 oed. Er mai criw bach ddaeth cawsant lot fawr o hwyl. Diolch i Adam Colman am drefnu.

**Y Gymdeithas**

Cafwyd noson ddifyr pan ddaeth Huw Aaron atom i siarad am ei waith fel artist a chartwnydd. Soniodd am sut penderfynodd ddilyn gyrfa fel cartwnydd a'r papurau a chylchgronau mae wedi cyfrannu iddynt. Cawsom weld ychydig o'i waith drwy gyfrwng Pwynt Pŵer. Mae Huw yn dylunio ar gyfer cylchgrawn 'Mellten' ac yn cyhoeddi llyfrau. Diolch hefyd iddo e a'i wraig am eu gwaith diflino gyda phlant yr Ysgol Sul.

**Croeso mawr...**


*Gwilym, Alice a Nel*

...a llongyfarchion i Gwilym ac Alice Jeffs ar enedigaeth Nel Grace ar 17 Tachwedd. Braf oedd gweld y tri yn oedfa'r bore ar 24 Tachwedd. Cawson nhw groeso brwdfrydig wrthyn nhw gerdded i mewn. Roedd pawb wedi dotio ar Nel.

**Mudiad Wycliffe**

Ar fore Sul 17 Hydref daeth Carwyn Graves atom i siarad am ei waith gyda Wycliffe Bible Translators. Dyma fudiad sy'n gweithio law yn llaw gyda Chymdeithas y Beibl ond yn canolbwyntio ar ieithoedd lleiafrifol. Anhygoel oedd clywed bod rhai miliynau o bobl eto i dderbyn y Beibl yn eu hiaith eu hunain. Diolch iddo am agor ein llygaid a hynny trwy ei bregeth ar yr eglwys yn Philipi. Mae Carwyn hefyd wedi sicrhau bod adnoddau Cymraeg yn ymwneud â gwaith y mudiad ar gael. Braint oedd cael cyfrannu i'r mudiad hwn drwy gasgliad rhydd y Sul. Os ydych am wybod mwy amdanynt ewch i'w gwefan, https://www.wycliffe.org.uk/

**'Operation Christmas Child'**

Daeth cyfle eto i gyfrannu bocsys i'r elusen werthfawr hon. Bydd y bocsys anrhegion eleni yn mynd i nifer fawr o blant mewn sawl gwlad ar draws y byd. Diolch i bawb gyfrannodd.

## TABERNACL, Y BARRI

Mae'r capel eiconig ar Sgwâr y Brenin yn y Barri ar werth. Aeth yr adeilad yn ormod o faich i aelodaeth bresennol yr eglwys ei gynnal a'i newid ar gyfer anghenion y gynulleidfa. Er chwilio'n ddyfal dros y tair blynedd diwethaf i gael partneriaid addas i ddefnyddio'r adeilad a rhannu'r baich, ni ddaeth ateb ac mi fydd capel Cymraeg olaf y Barri yn cau ei ddrysau ar ddiwedd y flwyddyn.

Bydd yr eglwys yn symud dros dro i addoli yng nghanolfan Gymunedol Sant Ffransis. Dyma ganolbwynt addysg Gymraeg yn y dref am flynyddoedd, a bu'r eglwys yn cael oedfa gymun fisol yn ystod yr wythnos yno ers blynyddoedd lawer.

Mae'r capel wedi chwarae rhan bwysig yn mywyd Cymraeg y Barri ers ei adeiladu ac wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer cyngherddau a chymanfaoedd. Bu'r radio a theledu yno dros y blynyddoedd lawer tro a dyma ganolfan ymarfer côr yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2012. Yma hefyd roedd cymdeithas y Cymrodorion yn cyfarfod. Bellach mae'r gymdeithas yn cyfarfod yn y Llyfrgell ar ochr arall Sgwâr y Brenin.

Sefydlwyd yr eglwys gyntaf oll ar yr union fan ar yr 20fed o Ebrill 1890 mewn sied dun gan 40 o Aelodau Bethel Penarth oedd wedi symud draw i fyw i'r Barri. Mae'r ddwy eglwys yn dal i gydweithio dan ofalaeth y Parchg Kevin Davies.

## TABERNACL, YR AIS

**Genedigaethau**

Llongyfarchiadau calonnog i Beth ac Owain Williams ar enedigaeth eu mab Dewi Benjamin Zacharias. Dyma ŵyr cyntaf Rhodri a Siân Williams ac yn ogystal yn or-ŵyr i Margaret Raymond Williams.

Hefyd ganwyd Angus William Thomas, mab i Daniel a Fiona ac yn ŵyr i Huw a Siân Thomas. Ganwyd Mari, merch i Marged a Meilyr ddiwedd mis Hydref, gan roi gŵen enfawr i Hywel ac Eira Jones.

**Cofio Beryl Eurig**

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth un o'r aelodau hynaf yn yr eglwys a roddodd oes gyfan i wasanaeth yr eglwys. Roedd yn rhan o Ysgol Sul Harriet Street, a phan gaewyd yr adeilad hwnnw, daeth y teuluoedd yno i'r Tabernacl. Bu'n athrawes yn yr Ysgol Sul, yn amlwg gyda dyletswyddau Cymdeithas y Chwiorydd, y Gymdeithas Nos Lun / Nos Fawrth, y Cwrdd Gweddi, yn gydlynydd Apêl Romania, yn ddiacones, yn olygydd y Cronicl a llawer mwy. Bu ei chyfraniad sylweddol yn angor i fwrlwm bywyd yr eglwys yn ail hanner yr 20ed ganrif.

**Cymdeithas Nos Fawrth**

Cynhaliwyd dau gyfarfod yn ystod mis Hydref, sef, y Cwrdd Diolchgarwch a'r Noson Lawen yng ngwmni'r ifanc. Cyflwynwyd yr awennau i Gruff McVeigh a gwahoddodd Beca i chwarae'r trwmped i gyfeiliant Dafydd Huw. Darllenwyd dwy gerdd gan Rhys ab Owain, rhannodd Gwïon Rhisiart brofiadau o fod yn aelod o 'Senedd yr Ifanc' a mwynhawyd cwis cerddorol gan Marc Jon. Eitemau ola'r noson oedd unawd ar y piano gan Dafydd Huw a deuawd gan Marc Jon a'i fab Osian.

Ymweliad â chartref Ann Williams ddechrau Tachwedd oedd y cyfarfod nesaf i fwynhau noson o Dân Gwyllt a Chŵn Poeth. Yna Siân Thomas o raglen 'Heno' ddaeth i'n difyrru-noson arbennig o atgofion.

**Cymdeiths Prynhawn Iau**

Pnawn cwis yng ngofal Wyn Morris oedd yr arlwy ganol Tachwedd ac yna cyfle i uno mewn Carol a Gweithgaredd yn ail gyfarfod y mis.

## CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

Daeth ugain draw i Fethel, Rhiwbeina ar nos Iau, 14 Tachwedd, i drafod dyfodol y Cyngor. Cafwyd gair o gefndir y cyfan ar hyd y blynyddoedd gan Denzil John, ysgrifennydd a rhoddodd Gwilym Dafydd, llywydd, gyfle i bob eglwys fynegi barn. Roedd pawb o blaid parhau ond gyda llai o gyfarfodydd.

Methwyd â phenodi ysgrifennydd a llywydd newydd a dywedwyd bod Delwyn Tibbott am roi'r gorau iddi fel trysorydd.

Ers hynny mae Dyfrig Lloyd, Eglwys Dewi Sant, wedi cytuno i weithredu fel cydlynydd a Gwilym Dafydd fel trysorydd ar gyfer 2020. Bydd gofyn i gyfarfod nesaf y Cyngor gadarnhau'r trefniadau hyn.

## BETHEL, RHIWBEINA

Llongyfarchiadau i Angharad a Gavin Traylor ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Alffi Jac. Mae Carol a Tony Davies wrth eu bodd yn fam-gu a thad-cu am y tro cyntaf.

Cafwyd bore coffi llwyddiannus ar 19 Tachwedd a chodwyd dros £800 tuag at Brosiect y Digartref. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael.

Llongyfarchiadau hefyd i Mimi Francis am fod yn rhan o dîm Ysgol y Wern dan 9 oed, a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth gymnasteg ysgolion Caerdydd. Bydd y tîm yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd genedlaethol ar ddechrau Rhagfyr.

Dymunwn yn dda i Rhys Matthews yn y gystadleuaeth gwyddbwyll ar 8 Rhagfyr.

Ar 8 Rhagfyr hefyd cynhelir gwasanaeth Nadolig y plant ac ar 15 Rhagfyr bydd y gwasanaeth Nadolig yng ngofal yr aelodau. Mae ein gwasanaethau bob bore Sul yn cychwyn am 10.15 ac mae croeso cynnes i bawb.

Am 11 yr hwyr ar Noswyl Nadolig cynhelir gwasanaeth Naw Llith a Charol dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Mae croeso i bawb ddod i'r gwasanaeth hwn hefyd.

Rydym yn danfon ein cofion at dair o'n haelodau sydd wedi methu â mynychu'r gwasanaethau yn ddiweddar oherwydd anhwylder.

## EGLWYS DEWI SANT

**Y Gwasanaeth Teuluol**

Ar 10 Tachwedd yn y gwasanaeth Cymun hwn i holl deulu'r eglwys gosodwyd torch o babi cochion ar y gofeb sydd yn yr eglwys gan ei fod yn Sul y Cofio.

**Teithiau Cerdded**

Ar waetha'r gwynt main, daeth criw da ynghyd i fynd am dro iachusol ar lan y gamlas yn Yr Eglwys Newydd ac i gael pryd o fwyd wedyn.

**Coffi a Chlonc**

Fel arfer ar fore trydydd Sadwrn y mis, daeth nifer ynghyd fore Sadwrn 16 Tachwedd i gymdeithasu tros baned a rhoi'r cyfle i ddysgwyr siarad Cymraeg mewn awyrgylch gartrefol, o hanner awr wedi deg tan hanner dydd. Ni fydd Coffi a Chlonc ym mis Rhagfyr.

**Llyfr Gweddi Gyffredin 1664**

Ar Sul olaf Y Flwyddyn Eglwysig ar 24 Tachwedd, cafwyd gwasanaeth Cymun hwyrol hyfryd pan ddilynwyd trefn Llyfr Gweddi Gyffredin 1664 a chanu'r Salmau Cân yn lle emynau.

**Cymdeithas Nos Iau**

Eu hanelu hi am Yr Eglwys Newydd wnaed unwaith eto ond y tro hwn i gael pryd Eidalaidd ym mwyty'r *Pizzeria Villaggio*.

**Yr Adfent**

Edrychwn ymlaen yn awr at dymor yr Adfent â'i naws arbennig wrth ddisgwyl ac ymbaratoi am Ŵyl Fawr Y Geni.

## EGLWYS Y CRWYS

Gyda gofid y derbyniwyd y newydd am farwolaeth Mr Jeff James, Yr Eglwys Newydd. Bu Jeff yn ffyddlon iawn yn y gwasanaethau tan ei lesgedd ychydig flynyddoedd yn ôl. Cydymdeimlwn a meddyliwn am Rae Ann, Leighton, Janet, Owain a Steffan a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli priod, tad, a thad-cu arbennig.

Cydymdeimlir â Mr Rôl Williams yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer ym Mlaenau Ffestiniog.

Mae nifer o'n haelodau wedi cael triniaethau yn ddiweddar. Braf gweld Mr Delwyn Tibbott wedi gwella mor dda ac edrychwn ymlaen i'w weld yn ôl yn yr oedfaon.

Mae Miss Pat Lister wedi derbyn triniaeth arw ac mae ein meddyliau gyda hi.

Cafodd Mrs Sally Davies driniaeth i'w llaw ac mae hi hefyd yn gwella'n dda.

Ni fu Mrs Beti Cooksley na Mrs Myfanwy Jarman yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt.

Daeth y Dr Huw Edwards i annerch 'Prynhawn Da' ar y testun 'Seiciatreg Ddoe a Heddiw' Cafwyd prynhawn diddorol yn ei gwmni. Roedd y defosiwn dechreuol o dan ofal Mrs Beryl Thomas gyda Mrs Gwen Holt a Mrs Lynfa Owens yng ngofal y te a'r lluniaeth fel arfer. Diolch yn fawr i bawb a fu ynglŷn â'r trefniadau. Erbyn y bydd Y Dinesydd allan o'r wasg bydd yr aelodau wedi mwynhau eu Swper Nadolig yng Nghlwb Golff Yr Eglwys Newydd. Diolch i'r Parchg Lona Roberts am ei threfniadau trylwyr arferol.

'Pe bawn i yn artist' oedd testun noson Y Gymdeithas a threuliwyd amser difyr yng nghwmni Siôn Tomos Owen. Dangosodd y plant fod gwir dalent yn Y Crwys wrth iddynt fwynhau'r gwaith arlunio a rhoddwyd cyfle i'r oedolion hefyd. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau ac i Catherine Jobbins a Diana Evans am baratoi'r te a'r cacennau blasus.

Fe gynhelir y Daith Gerdded flynyddol ar ôl y Nadolig ac eleni mae David Jones wedi trefnu y byddwn yn cerdded Mynydd Caerffili bore Sadwrn, Rhagfyr 28ain. Croeso i unrhyw un i ymuno, gan gychwyn o'r Maes Parcio ger y caffi ar y mynydd am 10.30 o'r gloch. Cofiwch ddod ag esgidiau cryf, dillad gwrth-ddŵr a phicnic efo chi.

## BETHEL, PENARTH

Er gwaetha'r tywydd cafwyd digon o hwyl yn ein Ffair Aeaf ar 9 Tachwedd, gyda swm sylweddol at y coffrau. Ond byr fu'r cofio melys, oherwydd clywsom o fewn dyddiau fod Dennis Morgan, a fu'n bresennol gyda'i wraig Margaret yn y ffair, wedi marw yn dilyn strôc arw. Yna, heb i neb ohonom wir dderbyn y newyddion am Dennis, cawsom ergyd pellach wrth glywed bod Margaret hithau hefyd wedi marw, yn dilyn gwaedlif ar yr ymennydd. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys iawn gyda'r teulu yn eu profedigaeth anarferol o chwerw.

Anfonwn gyfarchion cynnes iawn at Carys sy'n derbyn gofal arbennig yn Ysbyty'r Waun.

Da cofnodi bod Bethel yn tyfu'n fath o Ganolfan y Gymraeg yn y Fro, yn rhannol mewn cydweithrediad gyda Menter y Fro. Cynhelir amrywiaeth o weithgareddau wythnosol, megis, Cerddorion Bach y Fro, Ioga yn Gymraeg, Côr Allegro, Cylch Meithrin, Cylch Ti a Fi.

Da oedd gweld Emma nôl yn ddiogel o'i thaith i'r India gyda'r elusen Achub y Plant. Cawn glywed mwy ganddi yn y flwyddyn newydd.

Dymunwn yn dda i Betsan Jones ar ei chyfnod gwaith o chwe mis yn Siapan o fis Ionawr 2020.

Wrth ysgrifennu'r nodyn hwn edrychwn ymlaen yn llawen at Suliau Rhagfyr a Thymor yr Adfent, gyda menter newydd ar Sul cyntaf y mis wrth gynnal achlysur dan yr enw Carolau Cylch.

Mae un cwmwl o'n blaen. Ar Ddydd Sul 29 Rhagfyr, byddwn yn cyd-addoli gyda'n cyfeillion yn yr Ofalaeth yn y Barri am y tro olaf. Bellach mae cyflwr capel y Tabernacl wedi dirywio i'r graddau nad yw'n ddiogel i gynnal oedfaon yno mwyach. Bydd eglwys y Tabernacl yn dal i gyfarfod mewn lleoliad arall yn y dref.

## MINNY STREET

www.minny street.org

@MinnyStreet

Gweinidog: Y Parchedig Owain Llyr Evans

**Mis Rhagfyr: Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen yn fawr at arweiniad ein Gweinidog yn ystod yr holl oedfaon yn Adfent (1, 8, 15, 22 Rhagfyr). Ef hefyd fydd yn arwain yr oedfa foreol gynnar ar 8 Rhagfyr. Sylwch y bydd oedfa hwyrol 15 Rhagfyr (am 17:00) yn ddathliad Nadolig ac y bydd y parti Nadolig yn dilyn hynny. Am 23:30 y bydd ein Gwasanaeth Noswyl Nadolig o dan arweiniad y Gweinidog. Bydd cyfeillion Eglwys y Crwys yn ymuno â ni ar gyfer oedfa'r Nadolig am 10:00 a'r Parchedig Aled Huw Thomas (Eglwys y Crwys) fydd yn pregethu. Ein cyd-aelod, y Parchedig Menna Brown fydd yn arwain yr oedfa fore Sul, 29 Rhagfyr. Ni fydd oedfa hwyrol. Bydd Ysgol Sul yn cael ei chynnal ar 1 Rhagfyr ac er na fydd Ysgol Sul ar 15 Rhagfyr, dewch yn llu i'r dathliad Nadolig o dan arweiniad y Gweinidog am 17:00.

**Mis Rhagfyr: Gweithgarwch y mis**

Bydd PIMS yn cyfarfod nos Lun, 2 Rhagfyr ac eto ar 16 Rhagfyr pan gynhelir parti Nadolig PIMS (19:00–20:30). Cynhelir cyfarfod y Gymdeithas nos Fawrth, 10 Rhagfyr am 19:30. Bydd cyfarfodydd Minny'r Caffi (i bobl sy'n byw â dementia a chyflyrau tebyg) yn cael eu cynnal yn y festri brynhawn Gwener, 6 a 20 Rhagfyr (14:00–15:30). Bydd y gweithgarwch canlynol yn parhau: Babimini (fore Gwener, 6 Rhagfyr am 9:45 yn y festri) a Bethania (nos Fawrth, 3 Rhagfyr am 19:30 yng nghartref aelod). Bydd cyfle i fwynhau Koinônia pnawn ddydd Mercher, 4 Rhagfyr am 12:00 yn Caffe Fach, Rhiwbeina a Koinônia nos Sul, 15 Rhagfyr am 19:30.

Diolch i bawb am gefnogi a chyfrannu nwyddau at elusennau, am gynorthwyo â the i'r digartref a phrynu nwyddau Masnach Deg yn ystod y flwyddyn. Nadolig Llawen!

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Aelodau Newydd**

Llawenydd yw derbyn Daniel a Ffion Murdoch yn aelodau.

**Trefniadau'r Nadolig**

Dydd Sul 15/12/19 am 16.30 Oedfa Garolau yn yr Eglwys Newydd. Capel Tabernacl, 81 Heol Merthyr, CF14 IDD. Dydd Sul 22/12/19 am 10:00 Oedfa Garolau Deuluol yn adeilad yr Eglwys, 189 Stryd Rhymni, CF24 4BX. Dydd Nadolig 25/12/19 am 10:00 Oedfa Nadolig yn adeilad yr Eglwys, 189 Stryd Rhymni CF24 4BX

Bydd cyfieithu ar gael ym mhob gwasanaeth a bydd digon o garolau ac efallai mins pei neu ddau!

## AGOR Y LLYFR

Ar 18 Tachwedd, ymwelodd y grŵp ag Ysgol Glanmorfa, Waunadda. Stori Adda ac Efa yn yr ardd oedd yr arlwy. Gobeithio i'r plant fwynhau perfformiadau Lona Roberts fel Efa ac Ifan Roberts fel Adda! Bydd y criw nôl gobeithio ar fore Llun, 9 Rhagfyr gyda Stori'r Nadolig.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar Nos Lun 18 Tachwedd 2019 cawsom ddarlith ddiddorol iawn ar 'Gwyddoniaeth Data ac Ystadegaeth Meddygol' gan Hywel M. Jones sy'n ystadegydd proffesiynol. Mae Hywel wedi dal nifer o swyddi ystadegol gan gynnwys ystadegydd Bwrdd yr Iaith a fe sy'n gofalu ar ôl y saflewe http://statiaith.com sy'n drysorfa o ystadegau am yr Iaith Gymraeg.

I ddechrau aeth Hywel â ni ar daith i fyd y gwyddonydd data, gan sôn am nifer o feysydd cysylltiedig. Soniodd am 'data mawr' lle mae rhaid defnyddio technegau arbenigol i storio a phrosesu casgliadau anferth o ddata. Cawsom gyflwyniad byr i ddysgu peirianyddol, lle rydym yn hyfforddi cyfrifiadur i wneud penderfyniadau ar ôl gweithio ar set o 'ddata hyfforddi'. Mae'r maes yma, *machine learning* yn Saesneg, yn un sy'n tyfu'n gyflym ar hyn o bryd.

Yna soniodd Hywel am 'saernïo data' – mae cynllunio call ynglŷn â chasglu a storio data yn gallu arbed amser nes ymlaen. Nododd bod 95% o amser ystadegydd yn cael ei wario ar drawsnewid y data i ffurf addas i weithio arno, a bod y cam diwethaf o greu y graffiau neu luniau yn gymharol gyflym. Edrychon wedyn ar rai esiamplau o faes epidemioleg, sef, dadansoddi y ffactorau sy'n arwain at glefydau a'r hyn a all ein hamddiffyn rhag afiechydon. Daeth y data yma o sganiau nifer fawr o bobl am gancr y prostad a phroblemau ysgyfaint.

I orffen, soniodd Hywel am rai pethau fydd yn digwydd yn y dyfodol, er enghraifft, mae prosiect i annog meddygon i ddefnyddio termau wedi eu safoni yn eu nodiadau. Yna mae modd casglu data o ffeiliau cyfrifiadur neu trwy sganio nodiadau - cyn belled â bod y cyfrifiadur yn gallu darllen ysgrifen doctoriaid wth gwrs! Cawsom drafodaeth fywiog ar ôl y ddarlith a diolchwyd i Hywel am ein difyrru.

*Rhys Morris*

## NEWYDDION YCHWANEGOL Y DINESYDD

Weithiau mae gormod o ddeunydd yn dod i law i'w gynnwys mewn rhifyn cyfredol. O ganlyniad mae'n rhaid cwtogi ar rai erthyglau. Mae'r cyfraniadau canlynol i'w gweld ar ein gwefan www.dinesydd.cymru. Y mis hwn ychwanegwyd adroddiadau am y llyfrau canlynol: *Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl gan* y Parchg Ddr D. Ben Rees, Y Lolfa, £19.99,: *Y Pumed Drws* gan Sion Hughes, gwasg Gomer, £8.99 a *Byw Ffwl Pelt* gan Alun Lenny, Y Lolfa, £9.99.

# Cymdeithas Carnhuanawc / Cylch Cinio

Teitl anerchiad Gwynn Matthews oedd ‘Dwi isio bod yn Gymro’ (adlais o gân Huw Jones, ‘Dwi isio bod yn Sais). Trafododd ddau bwnc. Y cyntaf oedd, a yw hi’n bosibl bod yn Gymro neu’n Gymraes yn syml drwy ewyllysio hynny? Yr ail oedd, a oes un nodwedd sy’n hanfodol i Gymreictod?

Amod medru dewis bod yn Gymro/ Gymraes yw fod cenedligrwydd Cymreig yn bodoli, ond nid oes neb wedi dewis beth yw priodoleddau’r cenedligrwydd hwnnw. Fe’u hetifeddwyd heb eu hewyllysio neu ymresymu yn eu cylch. Cyfeiriodd Gwynn at safbwynt y meddyliwr Llydewig, Ernest Renan (1823 – 92), a unodd y ddwy elfen gan ddweud bod cenedl yn bodoli tra ewyllysiai ei haelodau iddi fodoli (‘refferendwm feunyddiol yw bod yn genedl’ meddai Renan), ond safai eu hymwybyddiaeth genedlaethol ar sylfaen ei hanes.

Ofer meddai Renan yw chwilio am nodwedd hanfodol mewn cenedligrwydd. Bydd yn gwahaniaethu o genedl i genedl. Yr oedd Gwynn am fynd gam ymhellach a dweud nad oedd unrhyw briodoledd unigol yn cael ei rannu gan bawb a ystyrient eu hunain yn Gymry. Rhennir y priodoleddau yn anghyfartal yn ein plith, ond gellir dweud eu bod yn gorgyffwrdd dros spectrwm eang. Bydd rhai ohonom yn rhannu rhai priodoleddau gyda rhai unigolion eraill. Tebygrwydd teuluol sy’n nodweddu cenedligrwydd.

Diolchwyd yn gynnes i Gwynn gan yr Athro Thomas Watkin C. F. am anerchiad athronyddol llawn hiwmor a roddodd inni ddigon i gnoi cil arno.

***Thomas Watkin (Cadeirydd y Cylch Cinio), Gwynn Matthews (Siaradwr) a Keith Bush (Cadeirydd Cymdeithas Carnhuanawc)***



# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan ein Cadeirydd Falmai Griffiths. Cafwyd noson arbennig ar nos Lun Tachwedd 18 pan ddaeth Siân Williams atom ynghyd â chriw o aelodau a gwirfoddolwyr o Asiantaeth Oasis, Splot. Bwriad Oasis yw hyrwyddo cyfleoedd i ffoaduriaid fod yn rhan o’r gymuned.

Cyn dechrau ar y gweithgareddau amlinellodd Siân amcanion yr asiantaeth sy’n gweithio gyda’r ffoaduriaid yma yng Nghaerdydd. Gall y ffoaduriaid hanu o bedwar ban y byd. Eglurodd hefyd rai o’r anawsterau sy’n eu hwynebu wrth geisio ymgartrefu mewn gwlad ddiethr.



Un o sêr y noson oedd Joseff, yn wreiddiol o’r Arfordir Ifori, sydd bellach yn rhugl ei Gymraeg. Fe gofiwn iddo siarad yn Gymraeg ar y radio efo Gari Owen wedi iddo ddysgu’r Gymraeg am 3 mis yn unig. Bellach, flwyddyn yn ddiweddarach mae’n hyderus iawn yn y Gymraeg ac fe gyflwynodd ei hun i aelodau’r gymdeithas a phawb yn rhyfeddu at ei allu. Y Gymraeg yw ei wythfed iaith, ac mae’n gobeithio aros yng Nghaerdydd. Roedd criw ffilmio yn ffilmio’r noson gan fod Joseff yn rhan o Sefydliad Josef Herman (yr artist o Ystradgynlais), y ddau Joseff fel petai, a llawer yn gyffredin.

Gweithredu yn bennaf drwy gerddoriaeth y mae’r asiantaeth i ddymchwel ffiniau ac adeiladu pontydd, cyfle i fynegi eu hunain drwy gerdd neu ddawns. Cyflwynwyd caneuon gwreiddiol, ac amrywiaeth o ganeuon o wahanol ieithoedd gan gynnwys y Gymraeg ac fe fu’r gynulleidfa yn gymorth i greu côr fel bo ffiniau wedi’u dymchwel a chymuned wedi’i chreu.

Diolchodd ein Cadeirydd ar ein rhan am noson gofiadwy, ac atgoffodd pawb am ein cyfarfod nesaf sef ein Cinio Nadolig yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd ar Nos Lun, Rhagfyr 9.

# Cymrodorion Caerdydd

'Tyfu'n Gerddor' oedd teitl cyflwyniad Alun Guy i Gymrodorion Caerdydd yng nghyfarfod mis Tachwedd, a gynhaliwyd yn neuadd Eglwys Dewi Sant. Roedd y teitl, meddai, yn adlais bwriadol o deitl hunangofiant Elvet Thomas, *Tyfu'n Gymro*, gŵr a gafodd gryn ddylanwad ar yr Alun cynnar. Yng Nghaerdydd, wrth gwrs, y 'tyfodd' y ddau - ond nid gyda'i gilydd.

Er bod cerddoriaeth yn rhan o'i fagwriaeth, nid oedd yn amlwg yn ystod ei blentyndod a'i lencyndod mai gyrfa gerddodrol oedd o'i flaen. Yn un peth, nid oedd yn hoff o'i athro piano, ac ni châi bleser wrth ymarfer. Ar ben hynny, yr oedd ar dir i fedru chwilio am gyfleoedd ym maes pêl-droed.

Pan ddaeth yr amser i ddewis cwrs prifysgol, dilyn cwrs gradd mewn cerddoriaeth yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd a wnaeth, er ei fod wedi dymuno dilyn ei chwaer i'r coleg ym Mangor. Cafodd y cwrs academaidd yn hynod o ddiflas, ond cawsai ei gyfareddu ers yn ifanc iawn gan gerddoriaeth jazz a'i ddenu maes o law, fel gymaint o ieuenctid y cyfnod, gan berfformwyr fel Bill Hayley a Lonnie Donegan. Wedi graddio, gyda'r ifanc y bu iddo wneud cyfraniad sylweddol i addysg gerddorol dros gyfnod maith yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn ym Mhont-y-Pridd ac yna yn Ysgol Glantaf, Caerdydd. Deil i wneud cyfraniad pwysig yn genedlaethol ar ran y Cyd-Bwyllgor Addysg.

Erbyn heddiw, mae'n fwyaf adnabyddus fel arweinydd. I Gwilym Roberts mae'r diolch pennaf am hynny, meddai ef, gan i Gwilym grefu arno i arwain Côr yr Aelwyd. O hynny, esblygodd yn arweinydd o fri cenedlaethol. Ef yn sicr yw brenin yr arweinyddion cymanfaoedd canu yn lleol a chenedlaethol. Cydnabyddodd ei ddyled i'w chwaer Janie a'i rieni am gyfoethogi ei adnabyddiaeth o emynyddiaeth Cymru.

Ar hyd yr yrfa bu llu o ddigwyddiadau annisgwyl a throeon trwstan, ac adroddodd Alun y straeon hyn gan amlygu dawn y digrifwr naturiol. Nid anghofiwn y fenyw anffodus y bachwyd ei mac blastig yn nrws ei gar – ac yntau yn dechrau gyrru heb sylweddoli beth oedd wedi digwydd!! Dangosodd cymeradwyaeth y gynulleidfa gymaint y mwynhawyd y noson.

# Y Cylch Llyfryddol

### Merêd, Phyllis – a Gwenan

Gan ei bod yn ganmlwyddiant geni Meredydd Evans eleni, ac o gofio ei gyfraniad mawr ef a'i wraig, Phyllis Kinney, i fywyd Caerdydd, roedd yn briodol mai 'Pori yn Archif Merêd a Phyllis' oedd testun cyfarfod Cylch Llyfryddol Caerdydd, nos Wener, 15 Tachwedd (cyfarfod a oedd dan nawdd cynllun 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru).

Yn ogystal â bod yn gantorion nodedig, aeth Merêd a Phyllis ati dros gyfnod hir i astudio canu gwerin Cymru yn ei holl amrywiaeth, gan ddod yn bennaf awdurdodau yn y maes. Yn hynny o beth, buont yn cydweithio'n agos iawn â D. Roy Saer yn yr Amgueddfa Werin, lle y'u gwnaed ill dau yn Gymrodyr Er Anrhydedd; a da iawn oedd gweld Roy yn bresennol yng nghyfarfod y Cylch.

Crynhôdd Phyllis a Merêd archif eang o ddeunydiau ym maes canu gwerin a cherddoriaeth draddodiadol sydd bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'r delynores Gwenan Gibbard yn un o ddoniau amlycaf byd canu gwerin yng Nghymru heddiw. Yn ddiweddar, dyfarnwyd iddi ysgoloriaeth er mwyn paratoi PhD ar agweddau ar gynnwys Archif Merêd a Phyllis, ac yng nghyfarfod y Cylch Llyfryddol cawsom flas ar ffrwyth ei phori cychwynnol yn yr archif.

Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i fwynhau gwledd o ganu gan Gwenan. Amrywiol iawn oedd yr eitemau: rhai yn ganeuon i gyfeiliant telyn, eraill yn ddigyfeiliant; rhai yn hwyliog, eraill yn hiraethus; rhai â dim ond y geiriau wedi eu cofnodi yn yr archif, a Gwenan yn eu priodi ag alawon cyfaddas.

Cafwyd cipolwg difyr ar y cyfoeth sydd yn Archif Merêd a Phyllis, a 'melys, moes mwy' oedd ymateb y gynulleidfa. Roedd yn amlwg hefyd fod pawb yn cytuno â chadeirydd y noson, Rhiannon Gregory, pan ganmolodd Gwenan Gibbard am ei doniau rhagorol fel perfformwraig offerynnol a lleisiol a'i gallu arbennig i gyfathrebu. Noson i'w chofio; a noson deilwng o'r ddau y cynhaliwyd y cyfarfod i ddathlu eu cyfraniad mawr.


*Roy, Gwenan ac Alun*

*E. Wyn James*


# Llyfrau Plant i'r Hosan Nadolig

### *Nadolig yn y Cartref* gan Luned Aaron

Mae'r Nadolig yn llawn traddodiadau hyfryd y gallwn eu mwynhau gyda'n gilydd. Dyma elfennau cartrefol a syml, sy'n gallu mynd ar goll ynghanol prysurdeb yr ŵyl. Gyda 24 llun a chwpled sy'n adlais o dymor yr Adfent, cyflwyniad i rai o'r agweddau traddodiadol hynny sydd yn *Nadolig yn y Cartref* gan Luned Aaron.

Dyma gyfrol liwgar i'w mwynhau yn y dyddiau cyn y Nadolig, a hynny ar ffurf clawr caled chwaethus. Yn ogystal â dangos rhai o elfennau cyfarwydd yr ŵyl i blant, mae rhai o'r traddodiadau llai cyfarwydd, syml a Chymreig, yn cael eu cyflwyno yma hefyd.

Gwasg Carreg Gwalch. Pris: £5.95





### *Y Ddinas Uchel* gan Huw Aaron

Mae Huw Aaron, yr awdur ac arlunydd o'r Eglwys Newydd, wedi creu llyfr gair a llun (*picturebook*) newydd i blant, sef *Y Ddinas Uchel*.

Mae'r stori'n dilyn Petra - merch fach sy'n byw mewn dinas lle mae pawb arall wrthi ddydd a nos yn adeiladu eu tyrau, a hithau'n gofyn 'pam?' Yn lliwgar ac yn deimladwy, gydag hiwmor ysgafn a neges gobeithiol, mae'r gyfrol yn addas i blant 3 -8 oed, ac wedi ei chyhoeddi gan gwmni Atebol.

Dyma anrheg Nadolig perffaith i blant neu rieni newydd. Bydd Y *Ddinas Uchel* ar gael yn siopau Caerdydd cyn diwedd Tachwedd, am £6.99. Neu gellir ei archebu rhag llaw ar wefan www.gwales.com.

Atebol. Pris: £6.99





### *Pobol Drws Nesaf* gan Manon Steffan Ros

Mae llyfr newydd Cymraeg ar gyfer plant yn cario neges gref am ddangos caredigrwydd ac i beidio beirniadu pobl sydd yn wahanol.

Mae *Pobol Drws Nesaf* gan yr awdures boblogaidd Manon Steffan Ros yn gyfuniad o stori annwyl yr awdures a lluniau lliwgar yr arlunydd a'r dylunydd Jac Jones, sydd wedi dod â'r testun yn fyw i'r darllenwyr ifanc.

"Ro'n i eisiau sgwennu stori ysgafn, hwyliog oedd efo neges bwysig ond syml – i beidio barnu pobl sy'n edrych, siarad neu'n ymddwyn yn wahanol. Mi sgwennais i'r stori yma cwpl o flynyddoedd yn ôl, ond wrth i'r amser fynd heibio, o'n i'n gweld bod 'na angen cynyddol am gael rhannu'r neges," meddai Manon Steffan Ros.

"Caredigrwydd tuag at bawb ydy'r neges. Dwi'n meddwl bod plant ac oedolion yn gallu ofni'r hyn dydyn nhw ddim yn ei nabod, felly gobeithio bydd *Pobol Drws Nesaf* yn gallu lleddfu'r ofnau am ryw chydig bach, a dathlu'r gwahaniaethau efo'n gilydd."





Dyma'r ail waith i Manon Steffan Ros a Jac Jones weithio gyda'i gilydd. Cyhoeddwyd *Dafydd a Dad* yn ôl yn 2013.

Mae'r stori am bobl 'wahanol' yn dod i fyw drws nesaf i Tim a'i deulu. Maen nhw'n siarad, yn edrych ac yn bwyta bwyd gwahanol i bawb mae Tim yn eu hadnabod. Ond buan daw Tim a Bob, mab y teulu drws nesaf, yn ffrindiau drwy chwarae a chwerthin gyda'i gilydd. Pan oedd rhai plant yn gas i Bob roedd Tim yn gofalu amdano a daw'r cymdogion newydd yn rhan o'r gymdeithas drwy siarad yr un iaith. Ac er eu bod nhw'n wahanol, does dim ots.

Y Lolfa. £3.99

# Llyfrau i'r Hosan Nadolig

### *Shwd ma'i yr hen ffrind?* gan Huw Chiswell




Mewn cyfrol ddadlennol, hunangofiannol, onest a chignoeth o'r enw *Shwd ma'i yr hen ffrind?* mae'r canwr Huw Chiswell yn rhannu stori ei fywyd. Mae'r gyfrol yn cynnwys geiriau 10 o ganeuon enwocaf y canwr-gyfansoddwr poblogaidd, wedi eu plethu â straeon personol a lluniau o'i fywyd.

Mae *Shwd ma'i yr hen ffrind?* yn datgelu y sbardun ysgogodd rhai o'i ganeuon enwocaf. Olrheinir ei fagwraeth yng Nghwm Tawe, ei berthynas â'i deulu a'i natur wrthryfelgar yn ystod ei lencyndod, ynghyd â'i gyfnod byrhoedlog fel paffiwr amatur. Rhennir hanesion am gyfnod prifysgol yn Aberystwyth ac Abertawe ac am brofiadau amrywiol ym myd teledu a hynny o flaen a thu ôl y camera. Mae'n siarad yn onest hefyd am ei yrfa gerddorol mewn grwpiau pop ac fel artist unigol, am y cyfryngau a'r sîn gerddoriaeth Gymraeg.

Meddai'r awdur: "Hanes rhai o'm caneuon sydd yma a chan bod y caneuon hyn yn gymaint rhan ohonof erbyn hyn, mae'n anorfod bod yma hefyd elfen o hunangofiant. Mae'n debyg y bydd llawer o'r caneuon o dan sylw yn lled gyfarwydd i'r rhelyw o'r darllenwyr, a dyna fan cychwyn hwylus ar gyfer taith trwy hanes cân, a chyd-destun parod ar gyfer rhywfaint o'm hanes innau hefyd. O lencyndod hyd at heddiw, mae awgrym o fy agwedd tuag at fywyd yno'n glir mewn cân. Ond gobeithio fod yr ymdriniaeth a'r hanesion sydd yn y gyfrol hon yn cynnig dealltwriaeth bellach, ambell wedd newydd ar y gwaith a mewnolwg dyfnach i'm bywyd a'm cymeriad innau hefyd."

Yn ogystal â darlunio ac adrodd hanesion am aelodau ei deulu, ceir straeon sydd yn cynnwys rhai o enwogion Cymru fel Dewi Pws.

Y Lolfa. .£9.99

### *Cofiwch Dryweryn: Cymru'n Deffro*

Mewn cyfrol newydd am hanes murluniau *Cofiwch Dryweryn* mae Ronny Oner yn egluro pam aeth ati i beintio'r slogan yng Nghaerdydd. Mae'n dweud yn y llyfr, "Roedd yr enw Tryweryn yn gyfarwydd i mi yn ystod fy magwraeth ym Mhentre'r Eglwys. Ond dim ond pan glywais i gân y Manics, *Ready for Drowning* a phan ddes i'n ffrindiau gyda Huw Stephens yn sgîl y cariad oedd gan y ddau ohonon ni at gerddoriaeth a chelf, y dechreuais i werthfawrogi trasiedi ddynol Tryweryn ac arwyddocâd diwylliannol wal deyrnged Cofiwch Dryweryn. Dwi wedi bod yn goruchwylio'r Millenium Walkway Graffiti Hall of Fame ers sawl blwyddyn ac wedi ei weld yn tyfu'n ganolbwynt i fynegiant celf gyfoes ac i falchder cenedlaethol a diwylliannol. Felly pan ofynnodd Huw Stephens i mi beintio murlun yn deyrnged i Dryweryn fe atebais 'Iawn' cyn iddo orffen ei frawddeg! Gyda balchder mawr y talais fy ngwrogaeth i dad Huw ac i furlun Cofiwch Dryweryn. Gobeithio y gall ysbrydoli cenedlaethau newydd i fynegi eu cariad at eu cenedl a'i hanes drwy gelf graffiti."

Yn ogystal â rhoi blas o ffenomenon murluniau Tryweryn 2019 ceir yn y gyfrol atgofion gan rai sy'n cofio Capel Celyn yn boddi. Mari Emlyn yw golygydd *Cofiwch Dryweryn: Cymru'n Deffro / Wales Awakening* a gyhoeddir gan Y Lolfa am £7.99.

### *Iaith y Nefoedd* gan Llwyd Owen

Mae'r awdur poblogaidd Llwyd Owen ar fin cyhoeddi ei ddegfed nofel Gymraeg, a hynny mewn prosiect arloesol gyda band Yr Ods, gyda chopïau yn cael eu rhoi mewn bocs-set unigryw a hardd y band yn ogystal â'i gwerthu yn unigol.

*Iaith y Nefoedd* yw teitl y nofel a'r albwm sy'n rhan o brosiect unigryw yn cydblethu cerddoriaeth a llenyddiaeth.

Meddai Llwyd Owen am y broses: "Daeth y syniad gwreiddiol o gyfarfod gyda'r band 'nôl yn mis Mehefin 2018. Gofynnodd y band i fi ysgrifennu nofel i gyd-fynd â'u halbwm newydd, a'r unig brîff oedd i ysgrifennu stori am gwlt. Ar ôl ysgrifennu'r stori, fe rannais hi â'r band, er mwyn iddyn nhw allu seilio'u record newydd arni.

Mae Griff Lynch o'r Ods wedi disgrifio'r nofel fel "y byd rydan ni'n ei adnabod rŵan, ond efo twist Llwyd Owen ffiaidd iddo fo."

Mae'r artist Tom Winfield hefyd wedi cyfrannu at y prosiect, trwy greu gwaith celf cysyniadol sydd hefyd yn seiliedig ar y nofel a'r caneuon, ac sydd yn gwneud y cywaith gorffenedig yn gyflawn ac yn gynhwysfawr.

Mae *Iaith y Nefoedd* yn digwydd mewn dau gyfnod amser gwahanol: yn y dyfodol agos, yn 2026, ac ymhellach i ffwrdd, yn 2066, mewn byd 'ar ôl y bleidlais'. Mae'r nofel yn cynnig gweledigaeth ddychrynllyd o Gymru'r dyfodol, ac mae'n arbennig o arwyddocaol o gofio datblygiadau gwleidyddol y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r nofel yn driw i steil arferol Llwyd Owen, sy'n adnabyddus am ei nofelau tywyll. Mae'n cynnwys y lleoliadau dinesig arferol, awdur sy'n llawn hunan-atgasedd, hiwmor tywyll, cyffro a thrais. Ond yn *Iaith y Nefoedd*, mae hanner y stori yn cael ei hadrodd gan ferch, profiad oedd yn "heriol, ond y mwyaf o hwyl" yn ôl Llwyd.

Y Lolfa £6.99

# Bwytai Merch y Ddinas

*"mae'r silffoedd yn gwegian dan bwysau danteithion hydrefol"*



Lowri Haf Cooke

**Rhoddion Bwyd yr Ŵyl**

Wel, dyma ni, ar drothwy'r Nadolig, a dwi wrth fy modd â'r paratoadau yng Nghaerdydd. Dwi eisioes wedi archebu'r deryn o J.T. Morgan yn y farchnad ganolog, ac mae'r silffoedd yn gwegian dan bwysau danteithion hydrefol; jin eirin duon, a jin eirin tagu 'rôl crwydro yn Sir Benfro a jariau di-ri o jam 'membrillo' o goeden cwins fy nhad ym Mharc y Rhath. Blas anhygoel sydd i hwnnw, gyda llaw; croes rhwng marmalêd sitrws a mêl rhosyn! Ond mae digon o bethau eraill ar fy rhestri i'w gwneud', gan gynnwys dechrau hel syniadau am anrhegion...



Nid syniadau am anrhegion i garedigion yn unig sy'n fy mhlagio ar hyn o bryd! Ffeindiais daleb 'A Gift Card FOR Cardiff' o ŵyl Nadolig y llynedd ar y silff, gwerth £20. Jacpot! Menter yw hwn sy'n cefnogi dros 70 o fusnesau annibynnol y ddinas - nifer ohonynt wedi'u lleoli yn yr arcêds canolog. A dyna'r union lefydd dwi wrth fy modd yn crwydro'r adeg yma'r flwyddyn, diolch i'r goleuadau ac addurniadau hudolus. Felly BETH tybed sy'n bosib i'w brynu gyda'r cerdyn hwn am £20? Yn ddiweddar, ces i bnawn dymunol yn ymchwilio..

Er gwybodaeth, cewch brynu taleb gwerth rhwng £10 a £500 ymhob math o siopau gwahanol; gwaith celf yn The SHO Gallery, gemwaith Jonathan David a Christopher George, neu gerddoriaeth yn Cardiff Violins. Hoffi rhedeg? Sbrintiwch draw i Run & Become. Cefnogwr rygbi? Shop Rugby amdani. Dillad Vintage? Beth am Hobos, Hatts Emporium neu Mojo King y farchnad?

Teg yw dweud mai busnesau bwyd a diod Caerdydd sy'n tra-arglwyddiaethu'r cynllun hwn. Pe baech yn cychwyn yn Arcêd y Castell, ac awydd cinio heb ronyn o gig, gallech chi'n bendant brynu byrger a sglodion (ac ysgytlaeth mefus a hufen!) figanaidd i ddau o fwyty Greazy Vegan. Neu, os am stecen i ginio a glasied o win coch, ewch i Asador 44 ar eich union – neu rhannwch botel o Cava o Bar 44. Beth am de prynhawn yn Barkers Tea House neu Waterloo Tea yn arcêd Wyndham, neu goffi yn Kin + Ilk? Yn bersonol, rhaid dweud mai Wally's Deli & Kaffeehaus (a Wally's Liquor Cellar yn Arcêd y Castell) sy'n fy nenu i, â'u basged llawn danteithion cyfandirol...

Gallai'r fasged drymlwythog gynnwys Turkish Delight am £3, Panettone am £5, a thriawd o gwrw'r Garreg Las o Sir Benfro am £11.95. Neu beth am botel o jin blas fioled o gwmni Eccentric o Gaerffili am £19.50? Ceir Stollen traddodiadol o'r Almaen am lai na phumpunt, neu gaws 'Black Bomber' Eryri o Gonwy am yr un pris. Mae'r dewis yn ddi-ddiwedd a dweud y gwir, ac nac anghofier y cusanau siocled Eidalaidd 'Baci' (rhwng £2.45 ac £8.95) ger y til!


Y tu hwnt i'r rhoddion hynny y mae modd eu prynu ar y cerdyn, mae'n werth cefnogi cwmnïau bwyd a diod eraill 'Dinas yr Arcêds'. Beth am gopi o albwm *Bwyd Time* gan Gorky's Zygotic Mynci o siop recordiau Spiller's yn Arcêd Morgan cyn sawru siocled poeth (a malws melys) o gaffi dymunol The Plan? Un o fy hoff lefydd i dros y gaeaf yng Nghaerdydd yw hafan heddychlon ar lawr uchaf Arcêd y Castell...


Nid nepell o'r goeden Nadolig, a gyferbyn â siop emwaith Buddug, mae bwtîc a bar gwin 'Wright's Wines' yn cynnig croeso – a chyngor – yn y Gymraeg. Dyma gangen ddinesig o emporiwm teulu Simon Wright yn Llanarthne, mecca bwyd lleol llwyddiannus iawn yn Sir Gâr. Tom Bull o Fryn Iwan sy'n rhedeg y siop win, ac yn paratoi danteithion blasus y 'bar' bach. Mae'r caws pôb a chennin yn flasus dros ben gyda glasied o Chardonnay! Peidiwch ag ofni croesi'r trothwy i edmygu'r detholiad o winoedd naturiol, sy'n deillio'n bennaf o'r cyfandir. Ac os oes gyda chi ffrind sy'n hoffi gwin, rwy'n eich sicrhau chi, bydd rhodd mewn bag cotwm Wright's (ag arno Castro, y gath deircoes) yn bownd o blesio i'r dim.

Ymysg argymhellion Tom ar gyfer rhoddion yr ŵyl y mae gwin coch organig Ciello Rosso Nero D'avola, blas eirin a sbeis, sy'n bendant yn cynnig gwerth am £9. Byddai hefyd werth buddsoddi yng ngwin rhosliw Ancre Hill am £15, gan fod y winllan yn Sir Fynwy ar werth ar hyn o bryd. Ond am anrheg cofiadwy i win-garwr o fri, ewch am y botel o win Gamay o Beaujolais gan Raphael & Emelie Beysang Les Paltieres (litr am £29), sy'n cynnwys darlun gan yr artist Louise Sheeran. Delwedd hyfryd yw hwn o elfen orau'r ŵyl – sef ymlacio mewn cwmni da. Wedi hynny, bachwch fwclis neu fathodyn o siop Buddug, gyferbyn, a mwynhewch 'Nadolig Llawen' iawn yng Nghaerdydd!

**Gwybodaeth am A Gift Card FOR Cardiff: www.cardiffgiftcard.com**
**Wright's Wines , 7-9 Arced y Castell, Caerdydd CF10 1BU**
***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99 yr un.**

## Rhif: 198



### Ar Draws

1. 'Wel, ----- ----- mawr
   A ddaeth i lawr o'r nef' (JT)(4,1'7)
7. Maint y cnau o dref hynafol (5)
8. 'Llawenydd yw cofio er cymaint a roed,
   Fod ----- y nefoedd mor fawr ag erioed' (ER) (5)
9. Gwasgu'r Dinesydd i ddiwrnod (3)
10. Cyffrous yw hun y cryf cyn diwedd nos (9)
11. Ôl trafod i'w weld yn nhechneg y dugiaid (6)
12. Trueni i Meirion golli ei ben dros y dychan (6)
15. 'Draw yn nhawelwch Bethlem dref
    Daeth baban bach ----- ----- byd' (JH)(2,7)
17. Perthynas sydd bron yn famgu (3)
18. Gwneud yn gytun ac i swnio fel rhan o nifer (5)
19. Tanio, a swnio'n fwy na chwech tro (5)

21 a 6 lawr
'Crist, Tad ----- yw,
'----- ----- ŵyneb Duw' (12 ac 1,11)

### I Lawr

1. 'Heddwch sydd rhwng nef a llawr
   ----- ----- ----- ----- ----- yn awr' (PJ)(3,1,3,2'1,2)
2. Am y cyntaf i ddechrau reiat amser swper (3)
3. Addurn gloyw disylwedd (6)
4. Diana'n rhoi rhan o'r cinio Nadolig i Dai gefnu ar yr achlysur (9)
5. Adlais wrth ail-ganu'r faled (5)
6. gweler 21 ar draws
7. 'Dyma Geidwad i'r colledig
   ----- i'r gwywedig rai' (MR)(5)
10. Mae bardd fel hyn yn gallu eistedd (9)
13. Dillad i ddal anrhegion (5)
14. Lle i aros yng nghartre'r coryn a'r mochyn yn Lloegr (6)
16. Un gwrol tan ddaear (5)
20. Drachefn daw'r estron ar yn ail (3)

**Enillydd Croesair Rhif 196**
**Eluned Edwards, Llandaf**

**Atebion Croesair Rhif 195**

**Ar Draws:** 1. Nos yn cysgu 7. Taran 8. Glywais 10.Ysu 11. Awst 12. Clau 14. O'r crud 16. Andwyo 18. Iarll 19. Cant 20. Oed 22, Difrodi 23. Mieri 24. Yn Llandegla

**I Lawr:** 1. Nerthu 2. Soniarus 3. Negesa 4. Ynys 5. Gwaglaw 6. Atgyfodiad 9. 'Sgubo'r dail 13. Anatomeg 15. Carafan 17. Cariad 20. Opera 21. Bola

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Chwefror, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

---

## EISTEDDFOD CAERDYDD

Mae'r trefniadau at Eisteddfod Caerdydd yn mynd yn eu blaen yn dda, ond mae dal sbel i fynd nes cyrraedd 17 Ionawr 2020!

**Cystadlaethau llwyfan**

Mae hefyd modd i chi gofrestru nawr ar gyfer y cystadlaethau llwyfan. Mae'n rhaid i chi gofrestru er mwyn cystadlu ar y diwrnod, felly ewch i www.eisteddfodcaerdydd.cymru i lenwi'r ffurflen i gofrestru! Y dyddiad cau ar gyfer cystadlaethau llwyfan yw dydd Gwener 10 Ionawr 2020.

**Nawdd**

Yn olaf, ry'n ni'n dal i chwilio am nawdd i gynnal yr eisteddfod. Ry'n ni wedi dechrau o ddim byd, ac wedi llwyddo cael nawdd gan nifer o sefydliadau a chymdeithasau Caerdydd yn barod. Ond fel gyda phob digwyddiad fel hyn, mae'n rhaid cael cyllid er mwyn sicrhau llwyddiant.

Felly os hoffech noddi'r eisteddfod yn gyffredinol, ry'n ni wedi creu tudalen Go Fund Me lle gallwch wneud cyfraniad yn hawdd gofundme.com/eisteddfod-caerdydd. Fodd bynnag, mae **sawl cystadleuaeth** yn dal i fod heb eu noddi'n benodol, felly os hoffech chi noddi cystadleuaeth benodol yn hytrach na rhoi nawdd cyffredinol, e-bostiwch cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru.

**Cystadlaethau Llenyddiaeth**

Y dyddiad cau: 6 Rhagfyr, 2019.

# Y DIGWYDDIADUR

## Rhagfyr

**Llun, 9 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cinio Nadolig yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd.
**Llun, 9 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Llanedern a Phentwyn. Noson o garolau a mins peis am 7.00pm yng nghwmni Rowenna Thomas yn y Ganolfan Gynadledda yn Neuadd Eglwys Gatholig St Philip Evans, y tu ôl i'r eglwys sydd ar Llanedeyrn Drive (CF23 9UL). Ceir digonedd o lefydd parcio ar bwys y neuadd. Mynediad am ddim, ond croesewir cyfraniadau gwirfoddol at y costau. Dewch i gefnogi'r iaith Gymraeg yn ein hardal. Manylion pellach: 07761 -696286 neu paulmorgan@ntlworld.com.
**Mawrth, 10 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Bydd Ruth Davies yn arwain sesiwn ryngweithiol, 'Creu addurn ar gyfer y Nadolig', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) rhwng 1.00 a 3.00pm.
**Mercher, 11 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Gwasanaeth Nadolig a Pharti, yn festri Capel Minny Street am 1.00pm. Anerchiad gan y Parch. Denzil John.
**Iau, 12 Rhagfyr**
Cabarela Nadolig ym Mar Cabaret ffresh, Canolfan Mileniwm Cymru. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/
**Sadwrn, 14 Rhagfyr**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd sgwrs gan Lis Williams am un o emynau Ann Griffiths. Yr un adeg bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes.
**Sadwrn, 14 Rhagfyr**
Noson o'r Pridd i'r Plât, yng nghwmni Ceri Lloyd a Rhiannon Holland, yn Wild Thing Cafe, Grangetown, am 7.00pm. Tocynnau: £25.
**Mawrth, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Gwasanaeth Cannwyll a Charol yng Nghapel Bethel, Rhiwbina, am 11.00pm. Croeso cynnes i bawb.

## Ionawr

**Llun, 6 Ionawr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yn y New House Hotel, Y Ddraenen (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Siaradwr gwâdd: Dr Grahame Davies.
**Llun, 6 Ionawr**
Cymdeithas Cymru-Ariannin. Cyfle unigryw i weld y ffilm 'Esgyrn Patagonia' (The Patagonian Bones) yn Chapter Caerdydd am 7.30pm. Darperir lluniaeth. Mynediad: £5.
**Mercher, 8 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Yvonne Evans ar y testun 'Hwn a Hon', yn festri Capel Minny Street am 1.30pm.
**Mercher, 8 Ionawr**
Merched y Wawr, Bro Radur. Sgwrs am 'Bŵer Meddylgarwch' gyda Siwan Reynolds yng Nghapel y Methodistiaid Saesneg, Windsor Road, Radur am 7.30pm. **(Sylwer ar y dyddiad gwahanol!)**
**Sadwrn, 11 Ionawr**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Gan ei bod yn 'Ddiwrnod Williams Pantycelyn', am 11.00am bydd sgwrs gan yr Athro E. Wyn James am ei emynau. Yr un adeg bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Mawrth, 14 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Nia Ceidiog ar y testun 'Dim ond Rhif', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm.
**Gwener, 17 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Huw L. Williams ar y testun 'Myfyrio ar y Meddwl Cymraeg a Chymreig', yn Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.
**Gwener, 17 Ionawr**
Eisteddfod Caerdydd, yn Ysgol Gyfun Plasmawr. Manylion pellach: www.eisteddfodcaerdydd.cymru/

**Llun, 20 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson gerddorol yng nghwmni disgyblion Ysgol Glantaf, yng Nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Tâl mynediad: £5.
**Llun, 20 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Cystadleuaeth Darlith Wyddonol Pobl Ifainc, yn Ystafell 0.77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.
**Mercher, 22 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Mair Treharne ar y testun 'Lesyns History, Lesyns Geography', yn festri Capel Minny Street am 1.30pm.
**Gwener, 31 Ionawr**
I nodi dathliad 150 mlynedd Capel y Tabernacl, Efail Isaf, bydd Don Llewellyn yn siarad ar y testun 'Straeon Cymeriadau Ardal y Garth', yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf, am 8.00pm.

## Chwefror

**Llun, 3 Chwefror**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yn y New House Hotel, Y Ddraenen (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Siaradwr: Syr Emyr Jones-Parry.
**Mercher, 5 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Siw Hughes ar y testun 'Consurio ac Ati', yn festri Capel Minny Street am 1.30pm.
**Iau, 6 Chwefror**
Trysorau'r Ffydd. Un o gyfres o gyfarfodydd o dan arweiniad yr Athro E. Wyn James sy'n edrych ar rai o uchelfannau ein llenyddiaeth Gristnogol. Gwaith Thomas Jones o Ddinbych fydd dan sylw. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, ar gornel Harriet St a Rhymney St, Cathays, CF24 4BX, am 7.30pm. Mynediad am ddim: croeso cynnes.

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur**
**gweler manylion ar dud. 2**



# Cwmni'r Dysgwyr

## Gwilym Dafydd

*"Dyna gyrraedd a dathlu carreg filltir arall yn hanes Yr Awr Hapus."*

**Ian a Jan Cox Yr Eglwys Newydd**




Mae'r map braidd yn fawr yn y llun, rwy'n gwybod! Ond gweler Ian a Jan, a oedd yn y Llyfrgell ar brynhawn Mawrth, 12 Tachwedd pan oedd Awen, cyfeillion Llyfrgell Yr Eglwys Newydd yn cynnal arddangosfa hanesyddol yno. Mae'n debyg bod tŵr hen eglwys Ysbyty Yr Eglwys Newydd yn gyfarwydd i nifer ohonom. Braidd bod galw Ian a Jan yn ddysgwyr yn briodol erbyn hyn. Maen nhw fel eraill wedi dysgu'r iaith ers blynyddoedd. Mae eu bywydau yn brysur gan eu bod yn mynchu gwersi Cymraeg a sawl coffi a chlonc yn wythnosol.

**Llyfrgell y Barri**



Ar fore Sadwrn gwlyb 9 Tachwedd roedd pump yn y clonc siarad Cymraeg wythnosol rhwng 10 a 12, a dau arall wedi gadael cyn i mi gyrraedd! Yn y llun medrwch weld Nic ap Glyn a Sarian, tiwtor yn y Fro, a thair arall. Diolch am y coffi unwaith eto – mae'n werth galw draw os am baned hynod o flasus a bisgedi siocled!

**Gwersi Cymraeg**

Mae Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yn cynnal dosbarthiadau yn festri'r Tabernacl, Yr Ais nos Lun a Iau, safon Sylfaen, 6 tan 8 o'r gloch. Yn Ionawr bydd cwrs Mynediad newydd brynhawn Llun a Mercher rhwng canol dydd a 1.30 p.m.

**Clwb Gwylio Adar**

Daniel Jenkins-Jones oedd yn arwain ar brynhawn Sadwrn gwlyb iawn, 2 Tachwedd. Gobeithio bydd hi'n sychach ar fore Sadwrn, 7 Rhagfyr, 10.30-12.30 pan awn am dro unwaith eto yn ardal Fferm y Fforest gyda Dylan Foster Evans yn arwain. Mae croeso i bawb ymuno gyda ni. Efallai wedyn cawn ni ginio arall yn Yr Hollybush!

**Yr Awr Hapus wedi dathlu pen blwydd 18 oed**

Dyna ddathlu carreg filltir arall yn hanes Yr Awr Hapus sy'n cyfarfod ar foreau Llun, 10.45 yn Ngwesty Pentref, Coryton. Daeth 14 ynghyd ar fore Llun, 18 Tachwedd, yna 10 yn mwynhau carferi blasus cynnar yn Yr Hollybush. Sefydlwyd ar fore Llun, 19 Tachwedd 2001, 6 yn y cyfarfod cyntaf sef Barbara sy'n dal yno fel fi, John, Ian a Luned (dau o staff y Clwb Hamdden) a David. Arwyddon ni garden gyfarch i John a Thelma Dann – baich y blynyddoedd bellach yn drech na hwy ac yn gaeth bron i'w cartref. Es i i'w gweld diwrnod yn ddiweddarach. Edrychwn ymlaen i ddathlu'r 20 yn 2021 neu 21 yn 2022!



**Canu Carolau**

Cynhelir cyfarfod canu carolau i ddysgwyr yn arbennig nos Iau, 19 Rhagfyr am 8pm yn y Taberncal, Yr Ais.

**Amser Jôc gyda Huw James**

Archfarchnad yw'r lleoliad. Tri chymeriad: cyfreithiwr cyfoethog o Sir Aberteifi, cyfreithiwr tlawd o Sir Aberteifi a Siôn Corn. Dyna bapur pum punt ar lawr. Pwy sy'n mynd i'w godi e? Wel, y cyfreithiwr cyfoethog wrth gwrs. Ffrwyth dychymyg yw'r ddau arall.

# Cyffro Tîm Caerdydd

CARDIFF CITY FC

Mae Tîm Pêl-droed Caerdydd yn ddiguro! Nawr, dyw e ddim yn aml dwi'n cael cyfle i ysgrifennu'r geiriau hynny felly mae eisiau gwneud y gorau o'r sefyllfa. Does neb yn gwybod a fydd cyfle i'w ddweud e eto. Wrth gwrs, os oes rhaid i chi edrych yn eich dyddiaduron chi byddwch yn sylwi taw dim ond tair gêm mae'r adar gleision wedi chwarae o dan y rheolwr newydd Neil Harris. Cawson ni un gêm gyfartal 2-2 a dwy fuddugoliaeth wych. Wel, efallai bod gwych ychydig yn gryf fel ansoddair ond mae buddugoliaethau 1-0 yn fuddugoliaethau. Ac roedd Gary Madine wedi gwneud rhywbeth da trwy greu unig gôl y gêm yn erbyn Stoke City. Mae'n debyg y bydd mwy am Neil Harris, ac efallai Gary Madine, yn ystod y flwyddyn ond rhaid ffarwelio nawr â Neil Warnock.

Dyna i chi gymeriad digon i lenwi cae cyfan. Oedd yn gamgymeriad iddo aros am un flwyddyn arall? Efallai. Oedd yn gamgymeriad iddo ddweud ei fod yn gorffen ddiwedd y flwyddyn? Mae'n debyg. A fydd yn golled i'r clwb? Wrth gwrs ond bydd yn cael swydd arall os yw e eisiau. Diolch yn fawr iawn Mr Warnock. Gawson ni lawer o hwyl a llwyddiant i'w fwynhau. Nawr te. Mae'r Neil newydd yn gallu llenwi'r esgidiau yn rhwydd, wrth gwrs, os ydyn ni'n aros yn ddiguro a gwneud y gêmau ail gyfle o leiaf. Dim ond tri phwynt o wahaniaeth sydd felly mae'n bosib o hyd. Ydw i wedi dweud bod Tîm Pêl-droed Caerdydd yn ddiguro?

*Steffan Webb*

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
*029 2068 9888*

Blwyddyn brysur arall yn dod i ben, a chyfle i ni edrych ymlaen at ddechrau blwyddyn newydd dda iawn, wrth ddechrau tymor newydd o glybiau a gweithgareddau Menter Caerdydd!

Bydd yr hen ffefrynnau fel y Gerddorfa Ukulele, Clwb Dawns a Drama, ac Amser Stori yn ail-ddechrau fis Ionawr, ynghyd â gweithgareddau newydd a chyffrous eraill i'r teulu oll, gan gynnwys:

Myfyrdod a Meddwlgarwch (16+); Pilates (16+); Ffit 'da Rhod (16+); Clwb Cyfarwyddo Bl.3-6; Clwb Ioga Bl.3-6; Cerddorion Bach (0-4 oed); Deffro'r Synhwyrau (0-2 oed); Splash a Chân (0-2 oed) a chwrs dawns newydd sbon ar gyfer rhai 3-4 oed!

Hyn oll a llawer iawn mwy! Cyfle gwych i drio clwb newydd yn ystod y flwyddyn newydd. Cofiwch hefyd am Miri Dolig ar 19 Rhagfyr yn Neuadd y Scouts, Grangetown. Ewch draw i wefan mentercaerdydd.cymru am fwy o wybodaeth.



# Martin yn ennill Cadair Dyffryn Ogwen

Mae bardd o Gaerdydd, Martin Huws, wedi dod yn gynta ac yn ail yng nghystadleuaeth Cadair Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Y gofynion eleni oedd cerdd hir neu ddilyniant o gerddi ar y testun Clymau.

Dywedodd y beirniad, Llion Jones, "Yn y ras roeddwn i'n chwilio am stamina, cysondeb, cywirdeb a'r gallu i godi gêr pan fo galw am hynny. Cafwyd rhai o'r elfennau hyn gan sawl un o'r ymgeiswyr, ond roedd gan y bardd a ddaeth i'r brig fesur go dda o'r cyfan ohonynt." Dywedodd fod cerdd hir **Lleidr Pen Ffordd** (Martin Huws) yn gyfanwaith crwn.

Yn ôl y beirniad, mae'r bardd yn deall ei gyfrwng, yn gwybod gwerth cynildeb, ac yn ymwybodol o bwysigrwydd y manylyn arwyddocaol. "Mae'n hyderus yn ei ddefnydd o'r cywair llafar ac mae'r defnydd o dafodiaith yn cynhesu'r dweud mewn ffordd chwerw-felys. Mae'n gwbl deilwng o gadair Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni."


Hywel Samuel & Associates
deintyddfa
dental practice

*Eich deintyddion yng nghanol y ddinas!*

- *triniaethau NHS/Preifat*
- *deintyddion newydd i'r tîm –*
- *Tristan Roberts BDS*
- *Sioned Samuel BDS, BA*
- *lle i gleifion newydd- cynta i'r felin ...*

*Cysylltwch i wneud apwyntiad-* 029 20371393
www@hywelsamuel.co.uk
info@hywelsamuel.co.uk

28, Heol Eglwys Fair / 28, St Mary Street,
Caerdydd CF10 1AB.